

Y Pwyllgor Cyllid Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Rhagfyr 2016



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid
**Bil Treth Trafodiadau Tir a
Gwrthweithio Osgoi Trethi
Datganoledig (Cymru): Adroddiad
Pwyllgor Cyfnod 1**

Rhagfyr 2016



Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Simon Thomas AC (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Mark Reckless AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Neil McEvoy AC
Plaid Cymru
Canol De Cymru

Contents

Argymhellion	5
01. Cyflwyniad.....	8
02. Cefndir	10
03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	13
04. Rhan 2 – Y dreth a'r prif gysyniadau	16
05. Rhan 3 – Cyfrifo treth a rhyddhadau	31
06. Rhan 6 – Ffurflenni Treth a Thaliadau	45
07. Rhan 7 – Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi	48
08. Goblygiadau Ariannol	54
Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	57
Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	58

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae'n gwneud cyfres o argymhellion yn yr adroddiad hwn, y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy er mwyn cryfhau'r darpariaethau yn y Bil.Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Cynulliad a'r Pwyllgor yn cael gwybod am y cynnydd o ran sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n argymell y gwneir hyn drwy ddatganiadau unwaith bob tymor y Cynulliad.Tudalen 18

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Memoranda Cydddealltwriaeth ffurfiol yn cael eu sefydlu gyda Cyllid a Thollau EM a'r Gofrestrfa Tir ar rannu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth arbenigol.Tudalen 21

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor o ymarferwyr cyn gynted â phosibl i drafod materion gweithredu technegol ac ymarferol. Dylai'r cyfrifoldeb am grŵp o'r fath gael ei drosglwyddo i Awdurdod Cyllid Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith y grŵp fod mor dryloyw ac agored â phosibl.Tudalen 21

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgysylltu â'r proffesiynau perthnasol o'r dechrau wrth lunio canllawiau Treth Trafodiadau Tir. Tudalen 24

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai tabl yn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp gael ei gynnwys yn y canllawiau.Tudalen 24

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar y darpariaethau yn y Bil, y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Gofrestrfa Tir i wneud y gwaith o ddarparu map o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn cychwyn Treth Trafodiadau Tir.....Tudalen 28

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi rhagor o wybodaeth yn egluro sut y mae'n bwriadu i'r ddeddfwriaeth bennu sut y bydd yn dosrannu'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy ar drafodiadau eiddo trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon drafod materion fel "dosrannu teg a rhesymol", a rhoi eglurder ar y gofyniad am ddau drosglwyddiad ar gyfer

trafodiadau trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn unrhyw ystyriaethau yng Nghyfnod 2.Tudalen 29

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyfathrebu, gan gynnwys goblygiadau adnoddau tebygol, am y cyfnod sy'n arwain at roi unrhyw ddarpariaethau Treth Trafodiadau Tir ar waith.Tudalen 30

Argymhelliad 10. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon tystion, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymrwymo i ymgynghoriad llawn a helaeth ar gyfraddau a bandiau cyn penderfyniad Llywodraeth Cymru.Tudalen 37

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhyddhadau priodol ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdedig Eiddo a Chynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth drwy welliannau yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau na fydd hyn yn datgymell buddsoddiad masnachol mewn eiddo yng Nghymru yn anfwriadol.Tudalen 40

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith pob rhyddhad yn ofalus, yn benodol rhyddhad anheddau lluosog, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau i ddiwygio'r ddarpariaeth o ryddhadau os bydd angen i fynd i'r afael ag unrhyw gymhellion croes.Tudalen 40

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu canllawiau ar weithredu'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi.Tudalen 44

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai datganiad o fwriad y polisi ar gyfer pob un o ryddhadau, gan gynnwys y rhyddhadau newydd a argymhellwyd gan y Pwyllgor, gael eu cynnwys yn fawl yn y nodiadau esboniadol i'r Bil.Tudalen 44

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai canllawiau manwl gael eu darparu i ymdrin â chymhwyso'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi, yn enwedig gan mai'r bwriad yw ei bod yn gymwys i drethi nad ydynt wedi'u datganoli a sicrhau bod ei diben yn parhau yn gul a chyda ffocws fel y nodir yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor dyddiedig 2 Tachwedd 2016.Tudalen 44

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau ar ffurf y dystysgrif sy'n ofynnol o dan adran 64 o'r Bil, a hynny i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.Tudalen 47

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai paratoi canllawiau ar weithredu'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi fod yn flaenoriaeth ar unwaith i Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n argymell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru weithio gyda rhanddeiliaid ar lunio canllawiau, gan sefydlu panel cynghorol ar y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi o bosibl.Tudalen 52

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu'r costau amcangyfrifedig diweddaraf cyn trafodion Cyfnod 2, gan gyfeirio'n benodol at gostau TG a chostau sefydlu.Tudalen 56

01. Cyflwyniad

1. Ar 12 Medi 2016, cyflwynodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet) y **Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)** (y Bil) a'r **Memorandwm Esboniadol** (ME) sy'n cyd-fynd ag ef. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad** ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Medi 2016.

2. Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2016, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) i ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9.¹ Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 22 Rhagfyr 2016.²

Cylch gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil:

Ystyried-

- egwyddorion cyffredinol y Bil;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

4. Ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl, gwahoddwyd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad i ystyried darpariaethau'r Bil hefyd, yn benodol:

- gweithredu bandiau a chyfraddau treth a sut i sicrhau y gallant ddelio â newidiadau dilynol a newidiadau eraill ledled y DU;
- agwedd tuag at osgoi trethi – gan gynnwys sicrhau bod gan drethdalwyr, cynghorwyr ac Awdurdod Cyllid Cymru lif gwybodaeth briodol yn ogystal â darparu unrhyw ddulliau clirio a sicrhau bod gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o adnoddau;
- yr esemptiadau arfaethedig;
- y rhyddhadau arfaethedig;
- sut y caiff trafodion preswyl ac amhreswyl eu diffinio a'u trin;
- sut y caiff cwmnïau, ymddiriedolaethau, sefydliadau dielw a phartneriaethau eu trin o ran darpariaethau a rhyddhadau.

¹ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 26.9

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), Medi 2016**

Dull y Pwyllgor o weithredu

5. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar wedi'i hatodi yn Atodiad A. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd a oedd yn gwahodd unrhyw un â diddordeb yn narpariaethau'r Bil i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r 13 o ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad B.
6. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor ddiwyddiad anffurfiol i randdeiliaid, y daeth 12 o randdeiliaid yn cynrychioli naw sefydliad iddo, a gwnaeth y Pwyllgor hefyd greu fforwm trafod ar-lein i gasglu barn cyfranogwyr ar y Bil, a chafwyd saith sylw gan chwe chyfranogwr.
7. Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, yn seiliedig ar dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad.
8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Lakshmi Narain, Cynghorydd Arbenigol y Pwyllgor, am ei gyngor ac arweiniad wrth drafod y pwnc cymhleth hwn.

Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil

9. Clywodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar briodolrwydd y darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar 3 Hydref 2016. Cyflwynodd ei gasgliadau ym mis Rhagfyr 2016.

02. Cefndir

10. Rhoddodd **Deddf Cymru 2014** gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros feysydd trethi datganoledig ac roedd yn darparu i Dreth Dir Treth Stamp y DU (SDLT) gael ei datgymhwyso yng Nghymru.

11. Bydd y Bil yn cyflwyno Treth Trafodiadau Tir (LTT) i ddisodli SDLT yng Nghymru o fis Ebrill 2018, yn ogystal â mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r Bil yw'r:

“ail o dri Bil i sefydlu trefniadau ar gyfer trethi datganoledig yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gysylltiedig â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 sy'n darparu'r pwerau a'r dyletswyddau i gasglu'r dreth, ac fe gaiff ei dilyn gan Fil i sefydlu Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT).”³

12. Gwnaeth **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** (Deddf TCM) ddarparu i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, sef yr awdurdod sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli LTT.⁴

Cymhwysedd deddfwriaethol

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

Mae paragraff 16A o Atodlen 7 yn nodi'r pwnc canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arno.

16A Trethu

Trethi datganoledig (fel y'u diffinnir yn adran 116A(4))

Mae Adran 116A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod treth a bennir yn Rhan 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diffinio fel treth ddatganoledig. Mae Rhan 4A yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud darpariaeth mewn perthynas â threth ar drafodiadau sy'n cynnwys buddiant mewn tir (adran 116L), a threth ar warediadau i dirlenwi (adran 116N).”⁵

14. Cyhoeddodd y Llywydd **ddatganiad** ar 12 Medi 2016 y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. **Ysgrifennodd at y Pwyllgor** ar 16 Medi 2016 i roi rhagor o fanylion am y materion hawliau dynol a chydsyniad y Goron y gwnaeth eu hystyried wrth lunio'r farn honno. Trafododd y Pwyllgor y materion hyn, ynghyd â'r materion eraill sy'n

³ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

⁴ Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) Adran 2(3) (Fel y'i cyflwynwyd)

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.1-2.3

ymwneud â hawliau dynol, gydag Ysgrifennydd y Cabinet pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ar 21 Medi 2016.

15. Mewn perthynas â chydysniadau'r Goron, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor mai barn Llywodraeth Cymru oedd nad oedd angen cydsyniad y Frenhines na Dug Cernyw ar gyfer y Bil hwn. Eglurodd fod hyn ar sail Deddf Ystadau Preifat y Goron 1862, a oedd yn gwneud y sofran yn atebol i dalu treth ar eu hystadau preifat. Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet:

“The Bill does nothing to upset that long-standing position and, as a result, we have concluded that consent is not required.”⁶

16. O ran a yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (GAAR) yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai barn Llywodraeth Cymru oedd bod y darpariaethau yn cydymffurfio. Eglurodd fod y farn hon yn dod o'r darpariaethau yn Neddf TCM, a oedd yn darparu ar gyfer penderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Cyllid Cymru (gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gosbau sy'n daladwy) i gynnig dwy lefel o ddiogelwch i'r trethdalwr – sef yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan Awdurdod Cyllid Cymru ac wedyn yr hawl i apelio i dribiwnlys haen gyntaf. Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet:

“I think that we have constructed the Bill in a way that has proper safeguards and, therefore, is article 6 ... compliant.”⁷

17. Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet am ei farn ar a oedd y Bil yn cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn, gan gyfeirio'n benodol at gyfraddau a bandiau Treth Trafodiadau Tir. Ymatebodd cyfreithiwr Llywodraeth Cymru drwy ddweud, gan fod y cyfraddau a'r bandiau wedi'u pennu yn y rheoliadau, byddai'n rhaid i'r rheoliadau gydymffurfio â'r Confensiwn yn yr un modd â'r Bil.⁸ Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor at bapur Llywodraeth Cymru **“Treth Trafodiadau Tir: Pennu Cyfraddau a Bandiau”** sy'n nodi'r sail y byddai penderfyniadau ynghylch cyfraddau a bandiau yn cael eu gwneud.⁹

Ymgynghori cyn y broses ddeddfu

18. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad **“Datganoli Trethi yng Nghymru – Treth Trafodiadau Tir”** a oedd yn trafod:

- trafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl;
- partneriaethau, ymddiriedolaethau a chwmnïau;
- lesoedd;
- rhyddhadau ac esemptiadau;
- cydymffurfio, osgoi treth, anghydfodau a chosbau.

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 193

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 174

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 186

⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 185

19. Mae'r ME yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad wrth "ddatblygu polisi a sefydlu treth sy'n diwallu anghenion ac amgylchiadau Cymru".¹⁰

Fframwaith Cyllidol ar gyfer Cymru

20. Mae'r LTT yn un o ystod o drethi y bwriedir ei ddatganoli i Gymru, gan gynnwys Treth Gwarediadau Tirlenwi. Byddai'r ffrydiau trethi hyn yn rhoi ffynhonnell uniongyrchol o gyllid sy'n annibynnol ar grant bloc Cymru i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn, bydd angen addasu'r grant bloc er mwyn ystyried y referniw a reolir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y fethodoleg ar gyfer gwneud y gostyngiad hwn yn cael ei nodi mewn fframwaith cyllidol ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n trafod sail y fframwaith.¹¹

21. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y "fframwaith yn hollbwysig i'r Bil yma", gan ychwanegu:

"for the first time, the National Assembly for Wales will be a revenue-raising, as well as a revenue-dispersing body. That's very important for this committee particularly, of course. But, in doing that, we have to have a set of rules that govern the new relationship between us and the Treasury. We've embarked on that already. I had a meeting with the Chief Secretary to the Treasury before the summer break. It was introductory, as he had been in that post himself for a matter of days. But, it was, I felt, a constructive introductory meeting. We agreed a timetable to work on the detail, and I will meet him again for the first of those meetings on the twenty-eighth of this month."¹²

22. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ei drafodaethau â'r Trysorlys.¹³ Yn ei ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi bod i gyfarfod dilynol gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, lle trafodwyd ystod o opsiynau ar gyfer addasu grant bloc Cymru a sut y byddent yn rhyngweithio â fformiwlâ Barnett a'r cyllid gwaelodol.¹⁴

23. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 3 Tachwedd, hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet yr Aelodau, yn ystod ei gyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd, mai ei fan cychwyn oedd bod yn rhaid i addasiadau yn y grant bloc adlewyrchu incwm a ildwyd i'r Trysorlys:

"if the current system had continued the Treasury would have collected a certain amount of revenue, which in the future they won't, and the block grant must reflect the fact that that revenue no longer flows to them. That's how we should begin to approach the Welsh block grant adjustment mechanism."¹⁵

24. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar 19 Rhagfyr 2016 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi dod i gytundeb ar fframwaith cyllidol i Gymru.¹⁶

¹⁰ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.6

¹¹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, [Datganiad Llafar - Datganoli Trethi a'r Fframwaith Cyllidol](#) 5 Gorffennaf 2016

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraffau 13 a 14

¹³ [Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 17 Hydref 2016](#)

¹⁴ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 27 Hydref 2016](#)

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 486

¹⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, [Datganiad y Cabinet 19 Rhagfyr 2016](#)

03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Diben y Bil

25. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor mai prif ddiben y Bil oedd:

“to respond to the circumstances created by the Wales Act 2014, which make it clear that, sometime in April 2018, the Westminster Government will turn off stamp duty land tax as far as Wales is concerned.”¹⁷

26. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Pe byddai Gweinidogion Cymru'n dewis peidio â gweithredu ffurf ar dreth ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru, wedyn ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cael y derbyniadau o'r dreth hon, sydd wedi amrywio o £100 miliwn i £235 miliwn y flwyddyn. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw darparu treth i ddisodli SDLT er mwyn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru barhau i gael mantais y refeniw a godir gan y dreth honno...Byddai peidio â chodi LTT yn arwain at gostau trafodiadau is i'r rheini sy'n caffael buddion mewn tir yng Nghymru gan na fyddai angen talu unrhyw dreth. Gallai hyn gynyddu nifer y trafodiadau eiddo. Ni fyddai ychwaith unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o weithredu'r systemau casglu a gweinyddu trethi.”¹⁸

27. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor, er ei fod wedi ystyried opsiynau polisi eraill, gan gynnwys peidio â chael treth newydd yn lle SDLT yng Nghymru, daeth i'r casgliad mai cyflwyno treth newydd oedd ei ddewis, a hynny er mwyn sicrhau'r canlynol:

“that a flow of revenue for core public services in Wales is continued when stamp duty land tax no longer applies to Wales.”¹⁹

28. Mae'r ME yn nodi, pe na bai'r Bil yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu pe na bai'n cael Cysdyniad Brenhinol, ni fyddai mandad deddfwriaethol dros gasglu LTT:

“Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu gyda chyllideb llawer llai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi refeniw i gynnal y lefelau adnoddau cyfredol.”²⁰

Cysondeb â Threth Dir y Dreth Stamp

29. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod, wrth gyflwyno treth newydd, yn ymwybodol o'r angen iddo fod yn gyson yn eang ag SDLT er mwyn galluogi cyfnod trosglwyddo

¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 8

¹⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.2-3.3 a 7.6

¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 10

²⁰ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.71

didrafferth rhwng yr hen system dreth a'r un newydd. Ychwanegodd mai ei fwriad oedd llunio Bil a oedd yn galluogi system newydd a fyddai'n hawdd ei adnabod i gynghorwyr ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr, wrth ganiatáu am y posibilrwydd o gyflwyno mwy o wahaniaethu rhwng y systemau mewn amser.²¹

30. Roedd nifer o'r sefydliadau a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn croesawu'r cysondeb eang rhwng LTT ac SDLT. Dywedodd cynrychiolwyr o'r Gofrestrfa Tir:

“the risk is we have to learn a completely dual or different system. So, the closer it is to the requirements for stamp duty land tax, it'll be easier for our caseworkers.”²²

31. Cytunodd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) y byddai'n fuddiol cael cysondeb rhwng y ddwy dreth fel bod cynghorwyr yng Nghymru yn gallu trosglwyddo'n didrafferth o un dreth i'r llall pan gaiff ei chyflwyno.²³ Rhannwyd y farn hon gan gynrychiolwyr o Gymdeithas y Cyfreithwyr a ddywedodd, o safbwynt y trosgludiaethwr, na fyddai newid er mwyn newid yn rhywbeth a ddymunir.²⁴

32. Nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant (CIOT) fod mabwysiadu nifer o ddarpariaethau sy'n debyg i SDLT yn golygu manteision o ran cysondeb ond ei bod yn anochel y bydd diffygion SDLT yn cael eu mabwysiadu hefyd. Felly, mae'n bwysig parhau i fonitro effaith y dull hwn.²⁵

33. Awgrymodd y CIOT y dylai crynodeb technoleg manwl o'r gwahaniaethau rhwng LTT a SDLT gael ei gynnwys mewn unrhyw ganllaw a ddarperir gan Awdurdod Cyllid Cymru, a ddylai gynnwys enghreifftiau ymarferol o sut y gallai'r gwahaniaethau effeithio ar drafodiadau cyffredin er mwyn helpu trosgludiaethwyr yn enwedig y rhai nad ydynt o reidrwydd yn arbenigwyr ar dreth.²⁶

34. Gwnaeth Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl yng Nghymru gyfleu barn wahanol i'r Pwyllgor, gan ddweud y canlynol:

“we should not be in a position where we're tempted to keep things the same just for simplicity's sake. The needs and desires of Wales, and some of the economic challenges of Wales, are different enough that we should be looking at this as a real opportunity to tailor this for the Welsh situation.”²⁷

Safbwynt y Pwyllgor

35. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, o ganlyniad i Gyllid a Thollau EM yn rhoi'r gorau i gasglu SDLT sy'n gymwys i drafodiadau eiddo yng Nghymru a'r grant bloc yn cael ei addasu yn gysylltiedig â hynny, bydd Cymru yn gweld gostyngiad sylweddol yn yr arian y mae'n ei gael gan San Steffan. Mae'n credu y byddai colli arian o'r fath yn andwyol i lif refeniw Llywodraeth Cymru ac felly, mae'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i weithredu treth newydd yn gam y gellir cyfiawnhau ei ddilyn.

36. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod SDLT yn dreth sydd wedi'i hen sefydlu a bod ymarferwyr yng Nghymru yn gyfarwydd â'r ffordd y caiff ei gweithredu. Mae'n nodi galwad a wnaed gan randdeiliaid y byddai cael dull cyson rhwng SDLT a LTT yn fuddiol o ran sicrhau bod trosglwyddo o un system dreth

²¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 11

²² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 194

²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 78

²⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 345

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA05, y Sefydliad Siartredig Trethiant

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA05, y Sefydliad Siartredig Trethiant

²⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 197

i'r llall yn digwydd yn ddiraffferth. Felly, daw'r Pwyllgor i'r casgliad bod y dull a gymerir yn y Bil i gyflwyno system debyg i SDLT, ond gyda'r gallu i deilwra darpariaethau yn y dyfodol i ddiwallu anghenion Cymru, yn ffordd briodol ymlaen.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae'n gwneud cyfres o argymhellion yn yr adroddiad hwn, y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy er mwyn cryfhau'r darpariaethau yn y Bil.

04. Rhan 2 – Y dreth a'r prif gysyniadau

37. Mae Rhan 2 o'r Bil yn nodi prif gysyniadau'r dreth, gan gynnwys diffiniadau, ac yn darparu i LTT fod yn gymwys i drafodiadau yn ymwneud ag eiddo (gan gynnwys tir ac adeiladau) a leolir yng Nghymru. Mae'n manylu'r math o drafodiadau a gaiff eu hystyried yn drafodiadau tir a pha fuddiannau a gaiff eu hystyried, neu na chaiff eu hystyried, yn drethadwy neu'n fuddiannau esempt ac yn nodi'r personau sy'n atebol i dalu LTT a chydymffurfio â'r gofynion hysbysu. Mae Adran 2 yn nodi mai Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth.

38. Mae Adran 3 yn diffinio trafodiad tir fel caffael "buddiant trethadwy" at ddibenion LTT. Buddiant trethadwy, fel y diffinnir yn adran 4, yw unrhyw ystad, unrhyw fuddiant, unrhyw hawl neu unrhyw bŵer dros dir yng Nghymru,²⁸ neu fudd rhwymedigaeth o dan unrhyw gyfyngiad sy'n effeithio ar ystad, buddiant, hawl neu bŵer o'r fath dros dir yng Nghymru. Ni fyddai buddiannau trethadwy yn cynnwys buddiannau esempt, a restrir yn adran 5.

Casglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir

39. Mae'r Bil yn nodi mai Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli LTT. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod profiad Cyllid yr Alban, y corff sy'n gyfrifol am gasglu'r dreth gyfatebol yn yr Alban, sef Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau, wedi ei arwain i gredu mai Awdurdod Cyllid Cymru ddylai fod yr awdurdod sy'n gyfrifol am gasglu LTT, yn hytrach na Chyllid a Thollau EM. Dywedodd y canlynol:

"The reasons why things moved in favour of the WRA, I think, include the following: the experience of Revenue Scotland, which suggests that taking on stamp duty land tax was at the easier end of the spectrum that they had anticipated, and the fact that a great deal of these transactions are doable in an electronic and mechanical sort of way. So, I think we've worked very closely with Scotland over the whole of these things and their experience gave us some comfort that we would be able to do the same for the Welsh Revenue Authority."²⁹

40. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y pryderon ynghylch y graddau y byddai Cyllid a Thollau EM yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn ychwanegu at ei gasgliadau mai Awdurdod Cyllid Cymru ddylai fod yn casglu ac yn gweinyddu LTT. Siaradodd am ei bryder nad yw Cyllid a Thollau EM wedi gwneud y canlynol:

"...geared up to doing it in a way that we would expect and want to do and think that the Welsh Revenue Authority can do. There is the fact that the HMRC's work programme for updating their systems in relation to stamp duty land tax, and therefore able to do something different for us, is fairly distant. It's in their work programme, but it's not in the early part of it and we are able to do that if we do it through the WRA."³⁰

41. Ychwanegodd hefyd y byddai rhoi'r cyfrifoldeb i Awdurdod Cyllid Cymru o'r dechrau yn fuddiol er mwyn meithrin gallu ac arbenigedd ac o ran llunio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth yn yr hirdymor:

²⁸ Ni chaniateir codi treth ar hynny o'r trafodiad tir sy'n ymwneud â thir sydd o dan farc distyll cyfartalog (**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, adran 116L)

²⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 46

³⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 47

“as Wales takes on more of these responsibilities, so we will need to build up the capacity of our own institutions to be able to carry these things out. If we did feel that we were able to get the WRA to do these things from the beginning, then that’s an investment not just at the start, but in the longer-term way in which we will wish to do things.”³¹

Adnoddau a pharodrwydd Awdurdod Cyllid Cymru

42. Mynegodd tystion i’r Pwyllgor pa mor bwysig yw hi bod Awdurdod Cyllid Cymru yn barod i ddelio â thrafodiadau LTT a’r ymholiadau cysylltiedig a’r ceisiadau am gyngor o’r dechrau. Dywedodd Geldards LLP:

“It will also be important for the Welsh Revenue Authority (“WRA”) to be able to support professional advisers and taxpayers with the provision of suitable tax clearances and advice services where there are uncertainties in the legislation and/or guidance issued on LTT.

A failure to provide sufficient resources to WRA in relation to both systems that work and have been adequately tested before going “live” on 2 April 2018 (1 April 2018 being a Sunday) and having personnel with sufficient experience and knowledge to deal with queries could have an adverse effect on the ability to implement the LTT provisions.”³²

43. Mynegwyd pryderon tebyg gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi:

“We suggest the go live date of 1st April 2018 looks challenging to operationalise the required processing and IT procurement/ systems. It will be important that implementation and transition is achieved in a seamless way. Given the close interaction of the LTT with the conveyancing process and legal profession, we suggest that the relevant professional bodies be fully engaged in further development of LTT and its associated process and systems.

It will be important for the WRA to have, from the outset, the resource and expertise it needs to provide a dynamic service across a range of engagement and communication channels with taxpayers. For instance, it might prove useful if the WRA were to be able to offer an “opinion service” and, we suggest, it will be important to ensure it is resourced and able to provide guidance and assistance that is dynamic and responsive to taxpayer queries.

Looking towards April 2018, there is limited time remaining for training, system and process needs to be identified and delivered. Clarity in these areas will be important as soon as practicable before Royal Assent.”³³

44. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i alwadau i sicrhau y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn barod i weithredu LTT o’r dechrau gan nodi:

³¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 48

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA02, Geldards LLP

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA04, Cyngor Benthycwyr Morgeisi

“guidance will be very important in making sure that stakeholders and those who operate in this field will be properly informed about the way that the new legislation will operate and that there’s transitional guidance available as well, which we will prepare jointly between HMRC and the Welsh Revenue Authority as the old system moves into the new one.”³⁴

45. O ran systemau TG, rhoddodd y sicrwydd a ganlyn i’r Pwyllgor:

“that is a very early priority for the WRA and lots of work is going on at the moment to try and make sure that we secure the best possible system from a digital perspective to be able to carry out these duties effectively in Wales.”³⁵

Safbwynt y Pwyllgor

46. Mae’r Pwyllgor yn cytuno â rhesymeg Ysgrifennydd y Cabinet dros sicrhau mai Awdurdod Cyllid Cymru sy’n gyfrifol am gasglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir yn hytrach na Cyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, mae’n credu ei bod yn hanfodol bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu dyrannu er mwyn recriwtio a hyfforddi staff Awdurdod Cyllid Cymru yn gynnwys a datblygu systemau TG priodol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros LTT o’r cychwyn a bod cyn lleied â phosibl o amharu ar drethdalwyr ac ymarferwyr. Mae’n credu y bydd angen i Awdurdod Cyllid Cymru weithio ar y cyd ag asiantaethau partner fel Cyllid a Thollau EM, y Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisiol (VOA), ac ymarferwyr i sicrhau bod ei waith paratoi yn addas at y diben.

47. Mae’r Pwyllgor wedi’i galonogi gan sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd ymarferwyr yn cael gwybodaeth am y gwaith o weithredu’r system dreth newydd ac y bydd canllawiau trosglwyddo ar gael. Serch hynny, mae’n credu y bydd angen monitro gwaith paratoi Awdurdod Cyllid Cymru yn agos o ran gweithredu LTT er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei dargedau o sefydlu gweithlu hyfforddedig a systemau TG yn barod ar gyfer dechrau’r system newydd.

Argymhelliad 2. Mae’r Pwyllgor yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Cynulliad a’r Pwyllgor yn cael gwybod am y cynnydd o ran sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Mae’n argymhell y gwneir hyn drwy ddatganiadau unwaith bob tymor y Cynulliad.

Cydweithio rhwng asiantaethau

48. Dywedodd y Gofrestrfa Tir wrth y Pwyllgor y byddai angen i Awdurdod Cyllid Cymru ddatblygu perthnasau gyda nifer o sefydliadau fel ei hun, y VOA a Cyllid a Thollau EM er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i drosgludiaethwyr a threthdalwyr. Dywedodd cynrychiolwyr o’r Gofrestrfa Tir:

“we hope that we’ll be able to develop equally good relationships with the Welsh Revenue Authority, the relevant people there, so that, if problems do come up, we can contact you and work with you.”³⁶

49. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod bwrdd prosiect trosglwyddo ar y cyd wedi’i sefydlu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Cyllid a Thollau EM i drafod trefniadau i drosglwyddo cyfrifoldeb casglu, ac roedd yn cydnabod y byddai angen i Awdurdod Cyllid Cymru gomisiynu cymorth gan Cyllid a Thollau EM wrth iddo sefydlu ei hun a meithrin arbenigedd o ran casglu a gweinyddu LTT. Roedd yn credu y byddai angen i Awdurdod Cyllid Cymru gael deialog gyda Cyllid a Thollau EM dros yr achosion

³⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 498

³⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 639

³⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 198

arferol y mae'n ymdrin â hwy, ond hefyd er mwyn defnyddio eu harbenigedd wrth ymdrin ag achosion mwy cymhleth:

“we will negotiate with HMRC to continue to have access to advice from them in those much more unusual sets of circumstances, where they have a long history of being involved, and where we will want to make sure that that advice is still available to Wales.”³⁷

50. Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid cael mynediad at gymorth o'r fath gan Cyllid a Thollau EM drwy drefnu secondiadau neu drwy fynediad pwrpasol at gyngor o'r fath.³⁸

51. Mewn perthynas â gwaith partneriaeth rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r Gofrestrfa Tir, hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor fod tîm gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau trafodaethau â'r Gofrestrfa ynghylch gofynion rhannu gwybodaeth.³⁹

52. Dywedodd y Gofrestrfa Tir fod ganddi Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cyllid a Thollau EM i sicrhau cydweithio ffurfiol:

“Our relationships with HMRC have just developed over the years in a bit of an ad hoc way, it has to be said. We do now have a memorandum of understanding with HMRC but it does cover more than just stamp duty land tax, so it will be really up to the officers in the Welsh Revenue Authority to decide what it is that they really want from us and, obviously, we can negotiate arrangements with them accordingly.”⁴⁰

53. Eglurodd un o swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn dyblygu'r system a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Cyllid a Thollau EM wrth lunio tystysgrifau i ddangos bod trethdalwr wedi darparu ffurflen ar gyfer trafodiad, ac y byddai'n ystyried meithrin perthynas debyg gyda'r Gofrestrfa Tir gan barhau i gyfnewid gwybodaeth rhwng yr asiantaethau.⁴¹

54. Dywedodd y Gofrestrfa Tir y byddai'n disgwyl datblygu perthynas debyg gydag Awdurdod Cyllid Cymru i'r un sydd eisoes wedi'i datblygu gyda Cyllid a Thollau EM. Dywedodd y Gofrestrfa Tir wrth y Pwyllgor ei fod am:

“engage in discussions into setting up data-sharing arrangements and establish exactly what it is that the Welsh Revenue Authority needs.”⁴²

55. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor mai'r wybodaeth a oedd ganddo ar y pryd oedd:

“y bydd perthynas ffurfiol rhwng y WRA a'r bobl sy'n gwneud gwaith gyda nhw. Beth rydw i wedi ei weld yw beth maen nhw'n ei alw'n information sharing agreement.”⁴³

³⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 52

³⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 52

³⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 57

⁴⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 201

⁴¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 58

⁴² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 211

⁴³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 643

56. Yn eu tystiolaeth, cyfeiriodd y Gofrestrfa Tir, Cymdeithas y Cyfreithwyr a CIOT at Grŵp Llywio Cydweithio SDLT, a sefydlwyd rhwng Cyllid a Thollau EM, cyrff diwydiant a chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli trosgludiaethwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes cyfraith, cyllid a threth i drafod, datblygu a hyrwyddo strategaethau cydweithio er mwyn ymdrin â materion trethi. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr wrth y Pwyllgor ei bod yn gweld lle am gael cangen Gymreig yn rhan o grŵp llywio SDLT fel cyswllt rhwng Awdurdod Cyllid Cymru, Cyllid a Thollau EM ac ymarferwyr yn ystod y cyfnod trosglwyddo rhwng SDLT a LTT. Ychwanegodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai'n awyddus i fod yn rhan o'r gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a hyfforddi ei staff.⁴⁴

57. Awgrymodd tystion y byddai sefydlu grŵp llywio tebyg ar gyfer LTT yng Nghymru yn ddefnyddiol. Dywedodd CIOT:

“We think that setting up a similar stakeholder group in Wales to provide a platform for discussion between the WRA and those working with LTT will be helpful here.”⁴⁵

58. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y grŵp yn gyfle defnyddiol i randdeiliaid gydweithio i sicrhau bod y system yn gweithio i bawb dan sylw. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“Such a group should be established for LTT and we would advise the early establishment of a formal group before the LTT comes into effect in 2018.”⁴⁶

59. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet yn gadarnhaol i awgrymiadau i sefydlu grŵp defnyddwyr ar weithredu LTT, gan nodi:

“we will agree with the WRA that a user group will be established as a sort of successor to some of the groups that we've had to make sure that it will have, as part of its job, to test the guidance prior to the land transaction tax going live.”⁴⁷

Safbwynt y Pwyllgor

60. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd perthnasau gwaith da rhwng Awdurdod Cyllid Cymru ac asiantaethau fel y Gofrestrfa Tir a Cyllid a Thollau EM yn hanfodol os yw Awdurdod Cyllid Cymru am ddarparu gwasanaeth effeithiol i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr yng Nghymru. Bydd yn hanfodol i Awdurdod Cyllid Cymru gael mynediad at yr un arbenigedd a gwybodaeth a gyfnewidir ag sydd gan Cyllid a Thollau EM ar hyn o bryd er mwyn i'r gwaith o drosglwyddo i LTT fod yn ddi-dor.

61. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i baratoi i drosglwyddo i system newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n credu y bydd yn hanfodol i drefniadau gael eu cwblhau erbyn diwedd haf 2017 er mwyn cychwyn y system dreth newydd.

62. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y buddion o sefydlu gweithgor o ymarferwyr sy'n ymwneud â'r gwaith o weithredu LTT. Mae'n nodi bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â SDLT, ac yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet y byddai grŵp o'r fath yn cael ei sefydlu. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y grŵp yn chwarae rôl allweddol o ran cynnal y gwaith o rannu a

⁴⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 428

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA05, y Sefydliad Siartredig Trethiant

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA10, Cymdeithas y Cyfreithwyr

⁴⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 505

datblygu gwybodaeth ac arbenigedd ymysg ei aelodau a'u proffesiynau. Mae hefyd yn credu y byddai atebolrwydd a chraffu ar y ddeddfwriaeth yn gwella yn sgil gwaith mor arbenigol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol yn cael eu sefydlu gyda Cyllid a Thollau EM a'r Gofrestrfa Tir ar rannu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth arbenigol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor o ymarferwyr cyn gynted â phosibl i drafod materion gweithredu technegol ac ymarferol. Dylai'r cyfrifoldeb am grŵp o'r fath gael ei drosglwyddo i Awdurdod Cyllid Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith y grŵp fod mor dryloyw ac agored â phosibl.

Canllawiau ar weithredu Treth Trafodiadau Tir

63. Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid fod sicrhau bod canllawiau hygyrch ar gael ar weithredu LTT yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo i'r dreth newydd yn digwydd yn ddidrafferth. Roedd rhai yn awgrymu y byddai darparu canllawiau drafft yn gynnar yn fuddiol i ymarferwyr wrth baratoi at weithredu LTT.

64. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet⁴⁸ i dynnu ei sylw at yr awgrym o sicrhau bod canllawiau drafft ar gael yn gynnar. Yn ei ateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Bydd canllawiau o safon uchel, sy'n effeithiol ac yn hawdd eu defnyddio yn hanfodol bwysig i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) er mwyn sicrhau bod y broses casglu a rheoli trethi yn effeithiol... Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi mai mater i ACC fydd paratoi a chyhoeddi canllawiau i gynorthwyo'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, a diweddarau'r canllawiau hynny dros amser.”⁴⁹

65. Gwnaeth Cyfarwyddwr Strategol Llywodraeth yr Alban gyfeirio at waith paratoi canllawiau ar-lein effeithiol fel agwedd lwyddiannus ar y gwaith cynllunio i weithredu LBTT yn yr Alban, a arweiniodd at leihau nifer yr ymholiadau ffôn a gafodd Cyllid yr Alban.⁵⁰

66. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y gellid trosglwyddo canllawiau perthnasol ar SDLT drosodd i LTT pe byddai'r rheolau yn gyson, gan ddweud y canlynol:

“if you've already got guidance out there that deals with SDLT and it deals adequately with LTT as well and everybody's happy with the SDLT guidance, then, again, that's consistent with the observation that you want to keep things as like for like as possible.”⁵¹

67. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet, gan ddweud y byddai'r tebygrwydd rhwng systemau SDLT a LTT yn galluogi canllawiau presennol i gael eu defnyddio fel canllaw. Dywedodd y canlynol:

“our general ambition to craft a Bill where there was continuity between the old system and the new system means that there will be some areas where extant

⁴⁸ Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 5 Hydref 2016

⁴⁹ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2016

⁵⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 36

⁵¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 356

guidance will still be a very good guide to the way that the system will operate.”⁵²

Cyfrannu at y canllawiau

68. Nododd amryw randdeiliaid wrth y Pwyllgor y byddent yn barod i weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i baratoi canllawiau ar weithredu darpariaethau'r Bil. Er bod Llywodraeth yr Alban wedi honni bod cynnwys trosgludiaethwyr yn y gwaith o baratoi a sicrhau ansawdd canllawiau a gynhrychwyd gan Cyllid yr Alban wedi lleihau nifer yr ymholiadau dros y ffôn:

“That guidance was drawn up by civil servants, working in Revenue Scotland, but we involved taxpayers’ agents, these conveyancing solicitors, as they’re called here. We involved a representative sample of these users in quality assuring the guidance, and we think that the effect of that has been to reduce the number of telephone contacts and that’s helped to keep costs down.”⁵³

69. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr ei bod yn gobeithio gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i gynhyrchu canllawiau ar gyfer LTT, gan ddweud y canlynol:

“in terms of guidance, we’re hoping that we will start to work very closely with the WRA staff to start to bring together the guidance, so that we would come to a situation where we would see the guidance at the same time as the legislation goes live.”⁵⁴

70. Pwysleisiodd Deloitte LLP hefyd bwysigrwydd darparu canllawiau cynhwysfawr i gyd-fynd ag LTT gan ddweud ei fod yn barod i helpu i’w llunio:

“In our experience, without proper guidance there will be more direct queries raised with the WRA and so drafting proper and comprehensive guidance up front is essential. We would be happy to discuss or review such guidance as it is being developed.”⁵⁵

71. Siaradodd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) am ei brofiad blaenorol o weithio gyda Cyllid a Thollau EM ar baratoi'r canllawiau a'r buddion a all ddod yn eu sgil, gan ddweud:

“We have consistently, over the years, worked very closely with HMRC and coming up with agreed guidance, but we bring skills to it that, say, HMRC may not have in terms of the practicalities and how things actually work. I think we have, potentially, quite a role to play here and I don’t think we should be afraid of that, we should welcome it.”⁵⁶

72. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y rhwydwaith presennol o ddulliau cynghori y mae Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r Bil, gan gynnwys grŵp cynghorol trethi, fforwm

⁵² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 498

⁵³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 37

⁵⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 367

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA 06 Deloitte LLP

⁵⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 537

treth a grŵp arbenigwyr technegol, a dywe dodd wrth y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r rhwydweithiau i lunio barn ar y canllawiau gofynnol a gwaith Awdurdod Cyllid Cymru.⁵⁷

Canllawiau ar y gwahaniaethau rhwng y Dreth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp

73. Roedd y gofyniad am gael canllawiau sy'n manylu ar y gwahaniaethau penodol rhwng LTT a SDLT yn codi'n aml mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd y CIOT:

"It clearly reduces the effect or the impact for practitioners on learning the differences if those differences are very apparent and clear in the guidance, ideally with practical examples of how they might affect a transaction that they were familiar with under SDLT."⁵⁸

74. Awgrymodd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad y byddai cynnwys tabl sy'n manylu ar y gwahaniaethau yn ddull effeithiol o ran y canllawiau:

"...having some sort of table that sets out very clearly a nice handy guide for practitioners to see what the differences are, so they don't have to trawl through the detail. That's going to be very helpful for them and will actually aid compliance and keep the costs down for taxpayers."⁵⁹

75. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai canllawiau yn arbennig o ddefnyddiol lle mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag LTT yn wahanol i SDLT.⁶⁰

76. Dywedodd y Rheolwr Polisi ar gyfer y Bil wrth y Pwyllgor y dylai'r gwahaniaethau rhwng SDLT a LTT fod yn hawdd eu nodi yn y canllawiau:

"I would anticipate that it would be beneficial for the WRA to list the areas where there are differences and to maintain that list of differences in a single set of instructions or in guidance so that conveyancers can easily identify where the WRA has itself identified the differences between the LTT legislation and the SDLT legislation."⁶¹

Fformat y canllawiau

77. Gwnaeth rhai tystion fynegi pryder ynghylch fformat y canllawiau ar weithredu LTT, gan bwysleisio y dylai cyhoeddiad fod mewn fformat hygyrch ac sy'n hawdd ei ddiweddarau. Dangoswyd hyn mewn sylwadau a wnaed gan Deloitte LLP a gyfeiriodd at wefan "GOV.UK" yn peidio â chaniatáu cyhoeddi dogfennau canllaw mewn fformat PDF. Cyfeiriodd Deloitte LLP at oedi wrth ddiweddarau canllawiau SDLT ar y wefan. Dywedodd cynrychiolwyr Deloitte LLP y canlynol wrth y Pwyllgor:

"I was in a Working Together meeting earlier this week, and it seems that for gov.uk material has to be in html format. It won't accept PDF documents, whereas a lot of the best revenue guidance is actually in PDF documents.

...at the moment, it's clear that the Revenue are having a little trouble updating guidance due to the GOV.UK system. So, I think it's important that the system

⁵⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 503

⁵⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 13

⁵⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 93

⁶⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 356

⁶¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 80

is flexible and can be updated quickly. I'd certainly hope that the Welsh Revenue Authority could produce their own guidance and update it quickly.”⁶²

78. Dywedodd Deloitte LLP ei fod yn gobeithio y gall Awdurdod Cyllid Cymru gyhoeddi canllawiau yn annibynnol (fel Cyllid yr Alban) er mwyn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf ac ymateb i feysydd penodol sy'n peri pryder iddo.⁶³

Safbwynt y Pwyllgor

79. Mae sicrhau bod canllawiau effeithiol ar weithredu LTT ar gael yn fater sydd wedi cael ei bwysleisio i'r Pwyllgor fel rhywbeth hanfodol i sicrhau trosglwyddo didrafferth rhwng gweithdrefn SDLT a LTT. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai llunio canllawiau hygyrch fod yn flaenoriaeth bwysig i Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu prosesu cyflwyniadau LTT yn syth ar ôl i'r dreth gael ei chyflwyno. Mae'n credu y dylai canllawiau o'r fath gael eu cyhoeddi mewn fformat hygyrch er mwyn gallu gwneud diweddariadau cyn gynted â phosibl yn dilyn unrhyw newidiadau polisi dilynol.

80. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi y gallai cyflwyno treth newydd fod yn gythryblus i'r rhai sy'n gweithio mewn diwydiannau perthnasol. Gallai'r ffaith y bydd y system newydd a'r system bresennol yn debyg hwyluso'r broses drosglwyddo. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynyddu'r risg y gellir gwneud camgymeriadau pe bydd rhai sy'n ymgysylltu â'r system yn methu â gwerthfawrogi ei bod wedi newid i Gymru. Felly, mae'r Pwyllgor yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai canllawiau clir sy'n nodi'r gwahaniaethau rhwng LTT a SDLT gael eu cynnwys yn y canllawiau a gynhrychir i gyd-fynd â'r dreth newydd. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio ar drafodiadau ar ddwy ochr ffin Cymru a Lloegr a fyddai angen cynghori cleientiaid ar ddwy system ar wahân.

81. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r parodrwydd a ddangoswyd gan rhanddeiliaid o amryw broffesiynau i weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i lunio canllawiau ar weithredu LTT. Mae'n cydnabod yr ystod o brofiad y gellir ei ddefnyddio drwy gydweithio ac mae'n croesawu'r dull hwn. Felly, byddai'r Pwyllgor yn annog Awdurdod Cyllid Cymru i weithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r dechrau, er mwyn gallu defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol i lunio canllawiau o'r safon uchaf.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgysylltu â'r proffesiynau perthnasol o'r dechrau wrth lunio canllawiau Treth Trafodiadau Tir.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai tabl yn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp gael ei gynnwys yn y canllawiau.

Tir sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr

82. Mae Adran 9 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer buddiant trethadwy sy'n cynnwys tir sy'n rhannol yng Nghymru ac sy'n rhannol yn Lloegr. Mae'n nodi y byddai trafodiad o'r fath yn cael ei drin fel dau drafodiad ar wahân, un yn ymwneud â Chymru a'r llall yn ymwneud â Lloegr, ac y byddai'r taliad neu'r gydnabyddiaeth arall ar gyfer y trafodiad yn cael ei ddostrannu. Byddai LTT yn cael ei godi ar drafodiad tir yng Nghymru ac SDLT ar dir yn Lloegr. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor fod y darpariaethau yn y Bil yn cyfateb i'r weithdrefn a nodwyd yn Atodlen 2 o Ddeddf Cymru 2014 sy'n nodi'r canlynol:

⁶² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 561 a 554

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA06 Deloitte LLP

“The transaction is to be treated as if it were two transactions, one relating to the land in England (“the English transaction”) and the other relating to the land in Wales.”⁶⁴

Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet:

“The 2014 Act sets out how transactions across border properties are to be taxed and this Bill operates within that framework. That’s the Act that says that if a property is partly in England and partly in Wales, then you apportion taxes according to how much of the property is in either place. It’s why a taxpayer would have to make two returns in those circumstances: one to the WRA and one to HMRC.”⁶⁵

83. Mae’r Pwyllgor wedi craffu ar y darpariaethau hyn yn fanwl er mwyn cael dealltwriaeth glir o ymarferoldeb prosesu trafodiad sy’n cynnwys tir neu eiddo sy’n croesi’r ffin. Dywedodd y Gofrestrfa Tir nad oedd arwydd clir o sut bydd y trefniant cyfan yn gweithio⁶⁶ a mynegodd bryder ynghylch dosrannu eiddo sydd ar ddwy ochr y ffin a thrafodiadau sy’n cynnwys prynu sawl eiddo a leolir bob ochr i’r ffin.

84. Holodd cynrychiolwyr o’r Gofrestrfa Tir sut y cyfrifir y dosraniad – a fyddai’n sefydlog neu a fyddai angen i’r trethdalwr ei gyfrifo bob tro, ac mewn perthynas â phrynu sawl eiddo, a fyddai angen i’r trethdalwr gwblhau dwy weithred drosglwyddo ar drafodiad o’r fath neu a fyddai un weithred drosglwyddo yn ddigonol. Gwnaethant hefyd nodi na fyddai’r Gofrestrfa Tir yn gallu cwblhau cofrestrriad nes y bydd wedi cael gwybodaeth gan Awdurdod Cyllid Cymru a Cyllid a Thollau EM ac y gallai unrhyw oedi amharu ar gwblhau’r cofrestrriad.⁶⁷

85. Dywedodd cynrychiolydd o Gymdeithas y Cyfreithwyr wrth y Pwyllgor mai ei dealltwriaeth hi o’r Bil oedd y byddai trafodiad sy’n cynnwys eiddo trawsffiniol yn ddosraniad un trafodiad o atebolrwydd ar bob ochr o’r ffin.⁶⁸

86. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen i’r ystyriaeth a roddwyd i hollti trafodiad a oedd yn ymwneud ag eiddo sy’n croesi’r ffin fod yn seiliedig ar ddosraniad “teg a rhesymol”.⁶⁹ Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach sut y byddai trafodiad sy’n cynnwys eiddo sy’n werth £200,000 yn cael ei ddosrannu pe byddai’r eiddo hwnnw wedi’i leoli hanner yng Nghymru a hanner yn Lloegr:

“for that house, it would be £100,000 liable in Wales and £100,000 in England, and then both of those would be below the threshold, so you would end up paying no tax, whereas if the whole of the house was on one side of the border, you would pay on a marginal tax basis the tax above the threshold.”⁷⁰

87. Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn argyhoeddedig y byddai’r budd posibl o beidio â thalu treth neu dalu llai o dreth yn gymhelliant i ddatblygwyr adeiladu eiddo newydd ar hyd y ffin:

⁶⁴ [Deddf Cymru 2014](#), Atodlen 2, paragraff 4

⁶⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 143

⁶⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 232

⁶⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraffau 238 a 239

⁶⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 384

⁶⁹ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2016](#)

⁷⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 145

“I suppose it’s for any individual to wonder as to whether or not the relatively small number of thousands of pounds that that might give you would be enough for you to decide that you would go to the trouble of constructing a house that lies on the border in those proportions. Now, maybe it does; maybe it introduces that distortion, but I don’t know that I’m completely convinced that it would.”⁷¹

88. Roedd y CIOT yn awgrymu y gellid cysylltu trafodiadau sy’n cynnwys eiddo sydd ar ddwy ochr y ffin er mwyn sicrhau’r canlynol:

“developments are not structured to straddle the border and take advantage of rate differentials between SDLT and LTT.”⁷²

Eglurodd un o’i gynrychiolwyr:

“with link transactions, it’s making sure that if you’ve got a transaction that is cross border—just one transaction—that they have to be linked, because you have what I call the ‘nil-rate bands’, so the £125,000 exemption, and then the other bands kick in from that level onwards. The taxpayer should only be able to claim one nil-rate band, whether it’s England or Wales. So, it’s apportioning whatever bands you have between the two regimes, so they can’t have the benefit of both nil-rate bands for that particular transaction. So, where one transaction is linked together then, yes, you’re correct that if there’s more than one acquisition, it would be linked as well.”⁷³

89. Mewn ymateb i’r awgrym o gysylltu trafodiadau sy’n cynnwys prynu eiddo trawsffiniol, eglurodd Rheolwr Polisi y Bil y gallai fod materion cymhwysedd gan fod y Bil ond yn darparu ar gyfer treth ar dir yng Nghymru, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i’r posibilrwydd.⁷⁴

90. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd sut y byddai’r darpariaethau trawsffiniol yn effeithio ar brynu sawl eiddo, rhai yng Nghymru a’r rhai eraill yn Lloegr (gyda dim un ar y ffin), a oedd yn cael eu prosesu fel un trafodiad am un pris y cytunwyd arno. Eglurodd, mewn sefyllfa o’r fath, y byddai angen i’r trethdalwr gymhwyso dosraniad teg a rhesymol i werthuso’r symiau LTT a SDLT sy’n daladwy.⁷⁵

“The apportionment required by the legislation is very difficult in practice. It would be inappropriate for solicitors to calculate the apportionment. It may therefore fall to the selling agent who has a duty to the seller but has a potential immediate conflict if asked by the buyer to provide the LTT/SDLT apportionment report.

Clear guidance will need to be given about how a just and reasonable apportionment will be arrived at and confirmed by the tax authorities so that it can be relied on by the buyer.”⁷⁶

⁷¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 145

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA05, y Sefydliad Siartredig Trethiant

⁷³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 20

⁷⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 552

⁷⁵ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2016](#)

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA10, Cymdeithas y Cyfreithwyr

91. Holodd y CIOT beth y gellid ei ddisgwyl gan yr ymadrodd “teg a rhesymol”, gan ychwanegu bod y VOA wedi llunio canllawiau ar hyn ac y byddai angen i ymarferwyr y byddai angen iddynt ddeall beth a ddisgwylir gan ddosraniad teg a rhesymol gymhwyso’r canllawiau hynny a sut y byddai Awdurdod Cyllid Cymru a Cyllid a Thollau EM yn cymhwyso’r rheolau hynny. Nododd cynrychiolwyr CIOT, gan y byddai’r egwyddor “teg a rhesymol” yn gymwys i drethi eraill yng Nghymru hefyd, fel treth ar enillion cyfalaf, ei bod hi’n bwysig iawn i fod yn gyson o ran ei chymhwyso. Aethant ymlaen i ddweud y dylai trafodiadau sy’n cynnwys eiddo croes-deitl gael eu cysylltu, er mwyn sicrhau bod y prynwr ond yn hawlio un esemptiad ‘band cyfradd sero’, p’un a yw’n drafodiad yng Nghymru neu yn Lloegr.⁷⁷

92. Hefyd, dywedodd CIOT wrth y Pwyllgor y byddai’n disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru a Cyllid a Thollau EM siarad â’i gilydd mewn perthynas â thrafodiadau croes-deitl ac y byddent yn cysylltu â’r VOA i wneud yn siŵr y bu dosraniad teg a rhesymol, yn enwedig pe byddai treth wahanol rhwng awdurdodaethau.⁷⁸

93. Dywedodd un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, a oedd yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet, wrth y Pwyllgor mai cysyniad yw “teg a rhesymol” a phrawf a ddefnyddir mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth treth, ac y byddai’n gyfarwydd i ymarferwyr. Dywedodd y byddai dosrannu tir yn dibynnu ar ffeithiau pob trafodiad penodol.⁷⁹ Mewn perthynas ag ardaloedd bach iawn o dir bob ochr i’r ffin, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai’n disgwyl:

“the WRA and HMRC would come to some sort of working rule about that that would prevent people from having to carry out really nugatory work.”⁸⁰

Mapio’r ffin

94. Clywodd y Pwyllgor nad oedd tystion yn siŵr faint o eiddo sy’n rychwantu ffin Cymru a Lloegr. Dywedodd y Gofrestrfa Tir fod agos at 500 eiddo sy’n sicr yn drawsffiniol a bod 400 eiddo arall posibl.⁸¹ Yn dilyn hynny cyflwynodd y Gofrestrfa Tir ei hadroddiad *Cross Border Title Report*, i’r Pwyllgor a oedd yn nodi bod 1,093 eiddo yn pontio’r ffin i raddau amrywiol a bod 27.45% o’r ffin heb ei gofrestru.⁸²

95. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr bryder penodol nad oes gan drosgludiaethwyr fynediad ar hyn o bryd at unrhyw fapiau sy’n dangos ffin bendant. Dywedodd cynrychiolwyr y Gymdeithas wrth y Pwyllgor:

“Title plans from the Land Registry don’t define the border. So, I could obtain the title for that field and it won’t tell me if three quarters of the field is in England and a quarter is in Wales because there is no border shown on the Land Registry definitive map.”⁸³

96. Pwysleisiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr yr anawsterau y byddai trosgludiaethwyr yn eu hwynebu wrth ddosrannu’r dreth sy’n daladwy ar eiddo sydd ar ddwy ochr y ffin heb leoliad pendant o’r ffin:

⁷⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 20

⁷⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 60

⁷⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 543

⁸⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 544

⁸¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraffau 232 a 234

⁸² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [FIN\(5\)-07-16 PTN3, 3 Tachwedd 2016](#)

⁸³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 387

“it’s difficult to see, without a border defined on the Land Registry map, how we will ever know whether these properties actually straddle the border. And from a Welsh point of view, and an English point of view, someone’s going to lose out on the tax, because conveyancers in my position simply won’t know to apportion the tax or to file two land transaction returns, because that information as to whether you straddle the border is not on the title documents.”⁸⁴

97. Awgrymodd CIOT mai’r Gofrestrfa Tir fyddai’r asiantaeth orau i ddarparu map pendant o union leoliad y ffin. Eglurodd cynrychiolydd o CIOT fod trosgludiaethwyr yn dibynnu ar gynlluniau’r Gofrestrfa Tir wrth lunio trosglwyddiadau, felly pe byddai’r ffin yn cael ei nodi’n glir ar y cynlluniau hyn, byddai’n glir pa dir sydd yn Lloegr a pha dir sydd yng Nghymru.⁸⁵

Safbwynt y Pwyllgor

98. Mae’r Pwyllgor yn credu ei bod yn glir o’r dystiolaeth a gyflwynwyd fod cryn ddryswch ymysg ymarferwyr o ran sut y byddai’r gydnabyddiaeth sy’n daladwy ar brynu un eiddo sydd bob ochr i’r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn cael ei dosrannu yn ymarferol. Daw’r Pwyllgor i’r casgliad y dylid egluro’r mater hwn ar fyrder i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu bod yn hyderus eu bod yn prosesu ffurflenni LTT yn gywir o’r dechrau.

99. Mae’r Pwyllgor yn nodi esboniad Ysgrifennydd y Cabinet fod y dreth sy’n daladwy ar brynu eiddo sy’n croesi’r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn unol â’r darpariaethau a nodir yn Neddf Cymru 2014. Fodd bynnag, mae’n awgrymu, fel mater o frys, y dylai ystyried sut y byddai trafodiadau o’r fath yn cael eu prosesu yn ymarferol. Mae’n cydnabod bod dealltwriaeth eang o’r term “teg a rhesymol” ymysg gweithwyr cyfreithiol / trethi proffesiynol. Serch hynny, mae’n amlwg bod llawer iawn o ansicrwydd o ran dosrannu eiddo yn ymarferol. Felly, mae’r Pwyllgor yn credu y bydd cael canllawiau clir ar ddosraniad ymarferol y gydnabyddiaeth, ac o ganlyniad yr LTT a’r SDLT sy’n daladwy ar drafodiadau eiddo croes-deitl, yn hanfodol i ymarferwyr o ddechrau’r system newydd. Bydd mewnbwn gan weithwyr proffesiynol sy’n ymwneud â gweithredu LTT wrth lunio canllawiau o’r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

100. Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol o’r potensial na fydd eiddo a brynir sy’n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr yn talu unrhyw LTT na SDLT pe byddai’r gwerthoedd a ddosrannwyd yn is na’r trothwy ar gyfer y ddwy dreth. Mae’n nodi’r awgrym y gellid cysylltu trafodiad o’r fath, ac er ei fod yn cydnabod y gallai fod problem o ran cymhwysedd, mae’n creu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd. Mae’r Pwyllgor yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro’r sefyllfa yn ystod y ddatl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

101. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y bydd absenoldeb ffin bendant ar fapiau yn bryder penodol i ddrosgludiaethwyr wrth brosesu’r cais i brynu eiddo croes-deitl. Mae’n nodi barn rhanddeiliaid mai’r Gofrestrfa Tir fyddai’r asiantaeth fwyaf priodol i gyflawni’r dasg o ddiffinio lleoliad y ffin.

Argymhelliad 7. Mae’r Pwyllgor yn argymhell, pe byddai’r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar y darpariaethau yn y Bil, y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu’r Gofrestrfa Tir i wneud y gwaith o ddarparu map o’r ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn cychwyn Treth Trafodiadau Tir.

⁸⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 388

⁸⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 43

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi rhagor o wybodaeth yn egluro sut y mae'n bwriadu i'r ddeddfwriaeth bennu sut y bydd yn dosrannu'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy ar drafodiadau eiddo trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon drafod materion fel "dosrannu teg a rhesymol", a rhoi eglurder ar y gofyniad am ddau drosglwyddiad ar gyfer trafodiadau trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn unrhyw ystyriaethau yng Nghyfnod 2.

Cyfathrebu Treth Trafodiadau Tir

102. Cafwyd trafodaeth rhwng y Pwyllgor, Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid o ran a yw'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd i'r system treth eiddo yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai yn nodi'r canlynol:

"The Welsh Government need to communicate widely to estate agents, purchasers, solicitors and mortgage advisors to ensure that everyone understands the changes and what tax they will be paying on a planned purchase. People in England and Wales need to be aware that LTT is a replacement tax and not an additional one."⁸⁶

103. O ran codi ymwybyddiaeth o LTT, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet er mai rôl y Llywodraeth yw sicrhau bod ymarferwyr yn cael gwybod am newidiadau i'r system dreth, fod rhwymedigaeth ar gyrrff proffesiynol ac unigolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau. Dywedodd y canlynol:

"We've had lots of engagement with professional organisations. They've been very keen to be involved in preparing the Bill."⁸⁷

104. Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth yr Alban hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r proffesiwn cyfreithiol fel rhan o godi ymwybyddiaeth o LBTT. Gwnaeth hyn bwysleisio'r gwaith a wnaed ochr yn ochr â Chymdeithas y Cyfreithwyr yn yr Alban a'r pwyllgor trawsgludo a mynd â sioeau teithiol i grŵp o randdeiliaid sy'n gyfreithwyr yn y flwyddyn sy'n arwain at newid o SDLT i LBTT.⁸⁸

105. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr wrth y Pwyllgor sut yr oedd eisoes yn gwneud gwaith gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy'r grŵp cynghorol trethi a gweithredu rhaglen ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru a threfnu digwyddiadau fel seminarau i godi ymwybyddiaeth ymysg ei haelodau am newidiadau i'r system dreth yng Nghymru.⁸⁹

Safbwynt y Pwyllgor

106. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am y rhwymedigaeth ar gyrrff proffesiynol ac unigolion i sicrhau bod ymarferwyr yn llwyr ymwybodol o'r newidiadau i'r system dreth, ac yn cytuno bod ganddynt gyfrifoldeb proffesiynol i sicrhau eu bod yn ymwybodol. Fodd bynnag, mae'n credu, wrth weithredu newid mor sylweddol i'r trefniadau presennol, fod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i weithio gyda chyrrff proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ac yn credu y dylai barhau a datblygu ymhellach yn ystod y cyfnod yn arwain at gychwyn LTT. Bydd hyn yn sicrhau proses drosglwyddo

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA 11, Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai

⁸⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 76

⁸⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 45

⁸⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 364 a 365

ddidrafferth rhwng y system bresennol a'r system newydd gan amharu cyn lleied â phosibl ar y rhai sy'n prynu eiddo yng Nghymru.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyfathrebu, gan gynnwys goblygiadau adnoddau tebygol, am y cyfnod sy'n arwain at roi unrhyw ddarpariaethau Treth Trafodiadau Tir ar waith.

05. Rhan 3 – Cyfrifo treth a rhyddhadau

Cyfrifo treth

107. Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi sut y byddai LTT yn cael ei gyfrifo. Mae'r ME yn egluro bod y dull o gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus wedi'i fanylu ar wyneb y Bil ac y byddai'n adlewyrchu SDLT. Byddai'r dull o gyfrifo LTT yn seiliedig ar gyfrifiad cyfradd ymylol, lle bydd treth yn cael ei chodi ar y gyfradd berthnasol ar gyfer pob band o'r pris prynu, ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl, yn hytrach na system slab (sy'n codi treth ar un ganran o'r pris prynu).

Pennu cyfraddau a bandiau

108. Yn y Rhan hon, gwneir darpariaeth ar gyfer cyflwyno fframwaith i bennu cyfraddau a bandiau LTT. Mae Adran 24 yn nodi y byddai angen i Weinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, o leiaf dri band treth a fyddai'n gynyddol uwch o ran natur, ac y byddai un yn fand cyfradd sero ac y byddai'n gymwys o ddyddiad a nodir yn y rheoliadau.

109. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet bapur ymchwil ar 15 Medi 2016 mewn perthynas â phennu cyfraddau a bandiau ar gyfer LTT.⁹⁰ Mewn datganiad a oedd yn cyd-fynd ag ef, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cyfraddau a'r bandiau yn cael eu pennu yn agosach at ddyddiad cychwyn y dreth er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r farchnad eiddo a'r amgylchedd economaidd ar y pryd.

110. Mae'r papur ymchwil yn nodi, ar ôl cyflwyno LBTT yn 2015, "mae'r Alban yn gymharydd defnyddiol a phwysig i Gymru". Mae'n nodi:

"Mae ystyried profiad yr Alban yn rhoi golwg ddefnyddiol ar rai o'r effeithiau posibl sy'n deillio o gyfraddau treth gwahanol ac effaith rhagbrynu o ganlyniad i gyhoeddi'r cyfraddau treth ymlaen llaw."⁹¹

111. Eglurodd Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannol Llywodraeth yr Alban mai'r prif bwyntiau o'r system a weithredwyd yn yr Alban oedd:

- bod eiddo gwerth hyd at £145,000 wedi'i esemptio o'r dreth, a
- bod eiddo gwerth dros £325,000 yn gorfod talu baich treth drymach nag o dan SDLT.

112. Dywedodd mai'r rhesymeg dros y polisiau hyn oedd annog prynwyr am y tro cyntaf i'r farchnad perchnogaeth eiddo drwy beidio â chodi unrhyw dreth ar drafodiadau gwerth is, ac yna ailgydbwysu'r faich dreth o'r trafodiadau gwerth is tuag at y trafodiadau gwerth uwch. Mewn ymateb i gwestiynau ar effaith y bandiau ar y farchnad eiddo yn yr Alban, dywedodd nad oedd cyfran cyfanswm y tai a werthwyd a gynrychiolwyd gan eiddo yn y bandiau treth uwch wedi newid rhwng y cyfnod cyn 2015 ac yn 2015-16 a dywedodd:

"the introduction of the tax doesn't appear to have distorted the housing market, but it probably is too soon to say."⁹²

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, Treth Trafodiadau Tir: Pennu cyfraddau a bandiau

⁹¹ Llywodraeth Cymru, Treth Trafodiadau Tir: Pennu cyfraddau a bandiau

⁹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 19

113. Roedd yr ICAEW yn gefnogol o'r dull o bennu cyfraddau LTT yn agosach at yr amser cychwyn gan nodi y bydd angen pennu'r cyfraddau gan gyfeirio at yr amodau ar y pryd. Er na wnaeth yr ICAEW gynnig barn ar lefel cyfraddau'r LTT, mynegodd bryder y gallai pennu cyfraddau yn rhy uchel danseilio buddsoddiad a thwf mewnol, gan nodi:

“if the Welsh Government is seeking to attract inward investment and growth, it should set rates that work for Wales and resist the temptation to set too high marginal rates of LTT.”⁹³

114. Gwnaeth y Cyngor Benthycwyr Morgeisi hefyd rybuddio yn erbyn pennu cyfraddau LTT uwch er mwyn osgoi datgymell teuluoedd ac unigolion rhag prynu eiddo o werth uwch, gan nodi:

“We suggest that Wales consider implementing rates that are no higher than those in England.

We suggest that, to avoid distorting the operation of the housing market and maintain a fair and equitable approach, government might consider rates and bands that do not place a disproportionate burden on middle to higher-value purchases.”

115. Awgrymodd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi y dylai Gweinidogion Cymru osgoi gwahaniaethau sylweddol yn y gyfradd dreth rhwng bandiau, yn enwedig rhwng band cyfradd sero a'r gyfradd isaf, gan ddweud y byddai hynny'n helpu i liniaru'r effaith i drethdalwyr ac osgoi aflunio yn y farchnad.⁹⁴

116. Gwnaeth Geldards LLP rybuddio ynghylch cyflwyno cyfraddau hefyd a oedd yn teimlo y gallai newidiadau i gyfraddau amhreswyl rwystro buddsoddiad masnachol yng Nghymru:

“Certainty of the tax bands and the rates in relation to non-residential transactions is important so that commercial property clients can plan ahead with regard to major property developments. An announcement in early 2018 of the bands and rates that differ substantially from the current bands and rates will not give sufficient time for clients to factor in the changes into their budgets.

The relatively high amount of SDLT that is collected from a small number of non-residential property transactions (compared to residential transactions) shows the importance of the non-residential property sector to LTT. It is important that the commercial property sector is not seen as a “cash cow” to fund the spending promises of Welsh Government. Property investors are highly mobile and may choose to invest their money in developments in England if LTT is seen as imposing a greater cost on equivalent developments.”⁹⁵

117. Mae'r Bil yn nodi y byddai'r rheoliadau cyntaf i bennu cyfraddau a bandiau ar gyfer LTT yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac y byddai unrhyw reoliadau dilynol i ddiwygo'r rheini yn ddarostyngedig i weithdrefn y cyfeirir ati fel gweithdrefn “gadarnhaol dros dro”. Byddai hyn yn

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA04, Cyngor Benthycwyr Morgeisi

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA02, Geldards LLP

galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn dod i rym ar unwaith. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ei fod yn ddymunol "gan ei fod yn sicrhau nad yw newidiadau'n creu gweithgarwch aflunio yn y farchnad." Eglurodd Rheolwr Polisi y Bil yn y rhesymeg:

"If the rates were to change 28 days after they were announced, a lot of people would try to push through transactions that might have been planned for the month later or the month after that. So, the aim is not to allow taxpayers to forestall by bringing their transactions forward."⁹⁶

118. Byddai angen i reoliadau a wneir o dan weithdrefn o'r fath gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 28 diwrnod. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y weithdrefn a fyddai'n cael ei dilyn wedi hynny:

"The Assembly then gets 28 days to decide whether or not the Government has acted in a way that the Assembly would wish to endorse or not. If the Assembly does not endorse the course of action taken by the Government, then the Bill is constructed in such a way that there is no detriment to the taxpayer. If the Government has done something where the taxpayer has benefited and the Assembly decides not to endorse that, the taxpayer keeps the benefit that they have had for those 28 days. If the Government has acted in a way that takes money away from the taxpayer and the Assembly decides not to endorse that, then the Government pays that money back to the taxpayer. So, the taxpayer is protected from the position where the Government has done something that the legislature then decides not to pursue."⁹⁷

119. Eglurodd Cyfawryddwr Strategaeth Ariannol Llywodraeth yr Alban fod y trefniadau ar gyfer pennu a diwygio cyfraddau a bandiau ar gyfer LBTT yn yr Alban wedi dilyn gweithdrefn debyg i'r darpariaethau hynny yn y Bil LTT. Cafodd y cyfraddau a bandiau cychwynol eu pennu drwy Orchymyn cadarnhaol ym mis Chwefror 2015, a byddai angen i Senedd yr Alban gymeradwyo Gorchymyn drwy weithdrefn gadarnhaol dros dro er mwyn eu newid.

120. Dywedodd cynrychiolydd o CIOT wrth y Pwyllgor ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaethau i weithredu newidiadau ar unwaith i gyfraddau:

"the Welsh Government needs to be able to respond quickly to changes in the rates set by Westminster, and also to immediate economic concerns."

121. Ychwanegodd ei bod yn ddefnyddiol i gael, ar wyneb y bil, y ddarpariaeth i ad-dalu unrhyw drethi a dalwyd pe na bai'r Cynulliad yn cymeradwyo'r newidiadau i'r gyfradd.⁹⁸

122. Gwnaeth Geldards LLP hefyd gefnogi'r ddarpariaeth yn y Bil i ganiatáu i Weinidogion Cymru newid y cyfraddau a bandiau LTT drwy is-ddeddfwriaeth:

"It is important that the LTT legislation can be amended quickly to enable Welsh Government to react to changes in market practice and changes to SDLT which could have a negative impact on the wider Welsh economy."⁹⁹

⁹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 139

⁹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 137

⁹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 150-152

123. Dywedodd y Gofrestrfa Tir ei bod wedi arfer delio â newidiadau sydyn i SDLT a wneir yn y gyllideb, ac y byddai'n gallu gwneud hynny gyda LTT. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“immediate changes to the rates and bands without prior notice could cause problems if there was a sudden change to the minimum threshold for tax. This might mean that we would need evidence, for instance, of the date of exchange of contracts if transitional provisions were made.”¹⁰⁰

Cyfradd uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol

124. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau i SDLT yn Natganiad yr Hydref 2015, a oedd yn cynnwys cyflwyno cyfraddau uwch o SDLT ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol (dros £40,000) fel eiddo prynu i osod ac ail gartrefi. O 1 Ebrill 2016, gosodwyd 3% ychwanegol ar gyfraddau SDLT ar gyfer prynu eiddo preswyl o'r fath.

125. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet Bapur y Trysorlys¹⁰¹ ym mis Gorffennaf 2016 yn gofyn am farn ar oblygiadau cyfraddau uwch SDLT ar gyfer anheddau preswyl ar gyfer LTT yng Nghymru, ac mewn ymateb i'r canfyddiadau, gwnaeth sylw mewn Datganiad Cabinet a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2016:

“Fel sy'n cael ei nodi ym Mhapur y Trysorlys, bydd gostyngiad sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus os na fyddwn yn cynnwys cyfradd uwch ar gyfer eiddo ychwanegol yn y dreth trafodiadau tir. Felly, er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus, rwy'n bwriadu gwneud darpariaeth ar gyfer gordal cyfradd uwch ar eiddo preswyl ychwanegol yn y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn ystod cam 2.

Byddwn yn parhau i bwysu a mesur yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid o ran sut y gellid addasu'r gyfradd uwch i amgylchiadau Cymru. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth.”¹⁰²

126. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a llafar, dywedodd Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl ei bod yn credu na ddylai cyfradd treth uwch ar brynu eiddo preswyl gael ei chyflwyno yng Nghymru. Dywedodd, mewn arolwg diweddar o'i haelodau, fod 84 y cant o landlordiaid wedi nodi eu bod yn debygol o gynyddu rhent i dalu am y faich dreth uwch a dywedodd 78 y cant fod y newidiadau wedi eu hatal rhag buddsoddi ymhellach.¹⁰³ Dywedodd y Gymdeithas ei bod yn credu bod y polisi y tu ôl i SDLT wedi'i gynllunio yn Llundain ar gyfer Llundain ac i fynd i'r afael â materion a oedd yn benodol ar gyfer Llundain ac nad yw'r 3 y cant ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer Cymru.

127. Aeth yr RLA ymlaen i ddweud pe byddai ardoll ychwanegol yn cael ei hychwanegu i ddarpariaethau'r LTT, byddai'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried nifer o esemptiadau, a fyddai'n helpu i deilwra'r polisi i ddiwallu anghenion Cymru. Awgrymodd na ddylai'r cyfraddau uwch fod yn gymwys i eiddo gyda'r bwriad o'u gosod pan:

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA02, Geldards LLP

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA01, y Gofrestrfa Tir

¹⁰¹ Llywodraeth Cymru **Papur y Trysorlys** “**Treth trafodiadau tir: cyfraddau uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol**”

¹⁰² Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, **Datganiad y Cabinet 14 Hydref 2016**

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA07, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

- fo’r eiddo wedi bod ar y farchnad mewn gwirionedd am flwyddyn neu fwy;
- nad oes unrhyw un wedi bod yn byw yn yr eiddo am dros flwyddyn (cartref gwag);
- fo’r eiddo yn cael ei brynu oddi ar gynllun; neu
- fo’r eiddo yn adfail neu mewn cyflwr difrifol.

128. Nododd ymhellach y byddai rhestr o esemptiadau ar wyneb y Bil, gyda phŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio’r rhestr, yn rhoi system dreth hyblyg i Gymru y gellid ei newid i gyd-fynd ag anghenion newidiol.¹⁰⁴

129. Mynegodd tystion bryder ynghylch y ffordd y cafodd y gyfradd ychwanegol ar gyfer SDLT ei gweithredu ers ei chyflwyno. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“The additional 3% is causing a very great deal of trouble in England. HMRC have vastly underestimated the difficulties it has caused and thus has been very slow to provide the advisory resources that taxpayers could rightly expect.”¹⁰⁵

130. Roedd Deloitte LLP yn rhannu’r un pryderon:

“there are some areas of uncertainty in the way SDLT works and is operated, which I think you do have the opportunity, not just through the tax law, but also through guidance, to perhaps help smooth the way and make things clearer for the practitioners... Certainly, the evidence is that a lot of people at the moment are not getting the SDLT returns right, particularly with the new 3 per cent and various other issues, particularly with residential.”¹⁰⁶

131. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet ei resymeg dros ei fwriad i ddiwygio’r darpariaethau yn y Bil i gyflwyno cyfradd uwch o LTT ar gyfer eiddo ychwanegol. Eglurodd fod y gyfradd uwch ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru o dan weithdrefn SDLT, a phe na fyddai cyfradd uwch yn cael ei chynnwys yn narpariaethau LTT, gallai Cymru golli allan ar swm sylweddol o refeniw. Roedd yn honni:

“if we were not to proceed with this in Wales, the Treasury would proceed on the basis that, had their way of doing things continued, they would’ve had a flow of revenue from Wales and they will take that off the block grant. So, the first imperative for me is to make sure that I don’t act inadvertently in a way that would lead to a significant loss of revenue for Welsh public services.”¹⁰⁷

132. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet yn ei flaen i egluro bod y swm o refeniw a gesglir o ganlyniad i gyfraddau uwch SDLT a LBTT yn llawer mwy na’r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a’i swyddogion er bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi amcangyfrif yn wreiddiol y byddai cyfradd uwch yn arwain at refeniw ychwanegol i Gymru o rhwng 10 a 14 miliwn o

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA07, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA10, Cymdeithas y Cyfreithwyr

¹⁰⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 552

¹⁰⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 508

bunnoedd, yn seiliedig ar y ffigurau ar gyfer SDLT maent yn rhagweld y byddai'r symiau i Gymru hefyd yn fwy.¹⁰⁸

133. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ei fwriad ar ôl cyflwyno'r system dreth newydd yng Nghymru yw y byddai'n adlewyrchu'n agos y system newydd sydd eisoes ar waith. Aeth ymlaen i ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn dysgu o'r profiadau o gyflwyno cyfraddau uwch ar gyfer SDLT a LBTT, gan gynnwys ailadrodd y rhyddhadau ychwanegol a gyflwynwyd yn yr Alban ers cychwyn LBTT. Dywedodd y byddai'r gwelliannau y mae'n gobeithio eu cyflwyno, pe byddai'r Bil yn cyrraedd y cyfnodau gwelliannau, yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau fel y gallai unrhyw newidiadau pellach a wnaed mewn perthynas â SDLT neu LBTT gael eu hadlewyrchu yn y system LTT yn ddiweddarach pe byddai angen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau â sefydliadau rhanddeiliaid am y ffyrdd yr hoffent weld y system yn cael ei graddnodi i Gymru.¹⁰⁹

Safbwynt y Pwyllgor

134. Mae'r Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros beidio â chynnwys y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer LTT ar wyneb y Bil ac ar gyfer pennu'r rhain yn agosach at y dyddiad gweithredu. Mae'n nodi mai'r amserlen ar gyfer pennu'r cyfraddau a bandiau yw tymor yr hydref 2017, a ddylai ganiatáu digon o amser i godi ymwybyddiaeth cyn i'r weithdrefn newydd gychwyn ym mis Ebrill 2018. Mae'r Pwyllgor yn credu, gan y bydd ymgynghoriad priodol ar y cyfraddau a bandiau arfaethedig yn hanfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser i ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

135. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y potensial i atal gweithgarwch a buddsoddiad masnachol yng Nghymru drwy bennu cyfraddau a bandiau ar gyfer eiddo preswyl ac amhreswyl ar lefel rhy uchel. Mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i'r pryderon hyn er mwyn osgoi bod Cymru yn cael ei gweld yn anghystadl euol ar gyfer busnes. Bydd yn hanfodol sicrhau cydbwysedd priodol rhwng casglu digon o adnoddau drwy LTT a gwneud yn siŵr nad oes canlyniadau anfwriadol o bennu cyfraddau ar lefel a allai rwystru'n ormodol naill ai gweithgarwch masnachol neu werthu a chyfnewid eiddo angenrheidiol.

136. Clywodd y Pwyllgor ddadleuon cryf o blaid ac yn erbyn gan gynnwys cynigion yn y Bil i gyflwyno cyfradd uwch o LTT ar gyfer prynu eiddo ychwanegol. O gofio y byddai gostyngiad sylweddol yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru pe na bai cyfradd uwch ar gyfer eiddo ychwanegol yn cael ei gweithredu, mae'r Pwyllgor wedi ei ddarbwylllo gan resymeg Ysgrifennydd y Cabinet dros ddiwygio'r Bil i gynnwys darpariaethau o'r fath. Nid yw'n cynnig barn ar lefel y gyfradd ychwanegol y dylid ei phennu i Gymru, ond mae'n credu y bydd yn bwysig bod pob safbwynt yn cael ei ystyried ac y bydd ymgynghoriad digonol yn allweddol i lunio polisi sy'n cydbwysu'r angen i gasglu refeniw treth a sicrhau bod y farchnad eiddo yn parhau i ffynnu. Mae hefyd yn credu y dylid dysgu a mynd i'r afael â'r diffygion a welwyd yn y weithdrefn gordal SDLT ar gyfer LTT.

137. Mae'r Pwyllgor yn nodi cynnig Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu briff technegol i Aelodau mewn perthynas â'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu cyflwyno mewn perthynas â chyfradd uwch o LTT ar gyfer eiddo ychwanegol. Pe byddai'r Bil yn symud i Gyfnod 2, byddai'r Pwyllgor yn falch o dderbyn cynnig Ysgrifennydd y Cabinet unwaith y bydd gwelliannau o'r fath wedi'u cyflwyno.

¹⁰⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraffau 510-515

¹⁰⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 509

Argymhelliad 10. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon tystion, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymrwymo i ymgynghoriad llawn a helaeth ar gyfraddau a bandiau cyn penderfyniad Llywodraeth Cymru.

Rhyddhadau

138. Mae Rhan 3 o'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer cyflwyno cyfres o ryddhadau LTT, a nodir ar wyneb y Bil yn Atodlenni 8 i 21. Mae'r Atodlenni yn nodi'r trafodiadau a fyddai'n cael eu rhyddhau rhag talu LTT a phryd y bydd rhyddhadau o'r fath yn gymwys. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae rhyddhadau trethi yn rhan bwysig o'r gyfundrefn drethi ac yn targedu amrywiaeth o wahanol amcanion. Cynlluniwyd rhai rhyddhadau i hybu ymddygiad arbennig, sy'n anelu at gyflawni amcanion polisi cymdeithasol neu economaidd, tra bo eraill wedi'u creu i sicrhau tegwch o fewn y gyfundrefn drethi.”¹¹⁰

139. Mae Adran 30 o'r Bil yn nodi'r Atodlenni perthnasol sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhyddhadau a darpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhyddhadau hynny. Mae'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru ychwanegu, addasu neu ddileu rhyddhad drwy reoliadau.

Cysondeb â Threth Dir y Dreth Stamp

140. Mae'r ME yn nodi mai'r bwriad yw darparu cyfres o ryddhadau sy'n gyson â gweithdrefnau LBTT a SDLT.¹¹¹ Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ryddhadau wedi'u hepgor neu eu haddasu yn y Bil. Y rhai sydd wedi eu hepgor yw:

- rhyddhad hawl y gymuned grofftio i brynu;
- rhyddhad sy'n gysylltiedig â datgyfuddiannu cwmnïau yswiriant; a
- rhyddhad sy'n gysylltiedig â datgyfuddiannu cymdeithasau adeiladu.

141. Y rhai sydd wedi eu haddasu yw rhyddhad anheddau lluosog a rhyddhad caffael.

142. Wrth hepgor rhyddhadau sy'n ymwneud â datgyfuddiannu, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet bod dau reswm dros ei resymeg dros wneud hynny:

“One is that these reliefs have not been used for many, many years and, secondly, it is not my policy to encourage demutualisation, so why would I want to incentivise it by offering a tax relief to make it easier to happen? You know, we are in favour of a mixed set of possibilities in the market there, and we don't want to favour non-mutual models over others.”¹¹²

143. Eglurodd Rheolwr Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil, mewn perthynas ag anheddau lluosog, fod LTT yn dilyn gweithdrefn SDLT yn fras ond heb y cyfnod tynnu yn ôl o dair blynedd sy'n bodoli yn SDLT oherwydd:

“the differences in house prices between, particularly, London and Wales generally. The economic motivation to split properties to sell them as multiple

¹¹⁰ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.21

¹¹¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.21

¹¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 106

dwellings and then to recombine them afterwards just doesn't exist in the property market that exists in Wales, even in Cardiff, in comparison to the centre of London.”¹¹³

144. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd, o dan ddarpariaethau LTT, fod rhyddhad caffael yn sylfaenol yr un fath ag o dan drefniadau SDLT, ac eithrio mân newid mewn perthynas â gallu Awdurdod Cyllid Cymru i gael treth gan gwmni cysylltiedig neu gyfarwyddwr rheoli.¹¹⁴

145. Roedd tystion yn gefnogol ar y cyfan o'r darpariaethau rhyddhad yn y Bil am eu bod yn gyson yn eang â rhyddhadau SDLT. Dywedodd Geldards LLP:

“We welcome the retention of a substantial number of reliefs that are contained within the SDLT legislation. This approach should avoid the steady “roll back” that occurred with the Scottish Land and Buildings Transaction Tax where reliefs had to be added to the LBT legislation once Scottish Government had been persuaded of the commercial merits of the reliefs rather than being tax avoidance by the backdoor.”¹¹⁵

146. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai cadw dull cyson â SDLT yn fanteisiol:

“it's one of the reasons that you want to be consistent with SDLT because you don't want to be disadvantaged if somebody could build something or buy something in Bristol compared with Cardiff and people are doing it all the time.”¹¹⁶

Rhyddhadau ychwanegol arfaethedig

147. Yn ogystal â darparu ar gyfer rhyddhadau penodol ar wyneb y Bil, mae darpariaethau wedi'u cynnwys hefyd i roi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno rhyddhadau newydd, addasu rhyddhadau presennol neu ddileu rhyddhad yn gyfan gwbl.

148. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor nad oedd y Bil yn cynnwys unrhyw ryddhadau ychwaengol i'r rhai a ddarparwyd ar eu cyfer yn SDLT oherwydd er bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn ystod yr ymarfer ymgynghori, ni wnaed achos cymhellol dros gynnwys unrhyw ryddhadau pellach. Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n gwrandao ar gasgliadau'r Pwyllgor ar ôl iddo gasglu tystiolaeth.¹¹⁷

149. Nododd Eversheds LLP a Deloitte LLP nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi mewn Eiddo Awdurdodedig (PAIF), a gyflwynwyd mewn perthynas ag SDLT drwy Ddeddf Cyllid 2016. Mae'r rhain yn gwmnïau buddsoddi penagored (OEIC) sy'n gysylltiedig ag is-gronfeydd OEIC ymbarél y'u detholir i'r drefn PAIF. Gellir hawlio dau fath o ryddhad yn eu cylch o dan y gyfundrefn SDLT. Mynegodd y ddau eu dymuniad i weld darpariaethau ar gyfer PAIFs yn cael eu cynnwys yn y Bil.¹¹⁸ Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater hwn, dywedodd y cynrychiolydd o Eversheds LLP:

¹¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 110

¹¹⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 111

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA02, Geldards LLP

¹¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 411

¹¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 116

¹¹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 614-625

“Yes, I think that (PAIFs) would be something you should consider. Obviously, the timing is such that those reliefs have just been introduced in SDLT in the summer. So, yes, it is something that should be considered, otherwise Welsh property will be something that these funds will not find attractive.”¹¹⁹

150. Dywedodd Deloitte LLP y byddai'n annog ymestyn y rhyddhad hwn i'r broses o ddarparu arian cychwynnol i Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Tiriog (REIT), yn hytrach na'i gyfyngu i strwythurau penagored yn unig.

151. Gwnaeth Eversheds LLP sôn hefyd am y ffaith bod Cynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth (CoACS) wedi'u hepgor o'r Bil. Mae'r rhain yn gynlluniau buddsoddi cyfunol sydd wedi'u seilio ar gontractau. Cronfeydd o asedau sy'n dryloyw o ran treth ac sydd o dan gydberchnogaeth at ddibenion treth yw'r rhain, ac eithrio pan fo'r ddeddfwriaeth dreth yn darparu fel arall ar eu cyfer. Nid oedd unrhyw drefniant arbennig ar eu cyfer yn y gyfundrefn SDLT hyd nes y cyflwynwyd trefniant o'r fath yn Ndeddf Cyllid 2016. Dywedodd Eversheds LLP:

“It is important for the Welsh property market that there is a matching LTT system. Because the ACS is now effectively opaque for SDLT purposes, a seeding relief is now necessary, and so there is a matching seeding relief for ACSs in the Finance Act 2016 introduced alongside the PAIF seeding relief.”¹²⁰

152. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion nad oedd y rhyddhadau ar gyfer PAIFs a CoACS wedi'u cynnwys yn y Bil gan nad oedd y ddeddfwriaeth a oedd yn eu cyflwyno i'r system SDLT, Deddf Cyllid 2016, wedi cael Cydsyniad Brenhinol mewn pryd. Roeddent yn dangos gan fod eu presenoldeb wedi bod yn gyfraith ers mis Medi 2016, y gallai Llywodraeth Cymru edrych a dysgu o brofiad SDLT o ran asesu a ddylai'r rhyddhadau gael eu cynnwys yn y system LTT.¹²¹ Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud mai ei resymeg dros ychwanegu rhyddhad i'r system fyddai presenoldeb sail dystiolaeth ar gyfer y rhyddhad, os oedd pwrpas polisi yn cyd-fynd â'r rhyddhad ac os yw wedi'i roi, y byddai'r rhyddhad yn cyrraedd y gynulleidfa a fwriedir.¹²²

153. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod ganddo feddwl agored o ran darparu rhyddhadau ar gyfer PAIFs a CoACS ac y byddai'n gwrandao ar gasgliadau'r Pwyllgor o ran a ddylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth o'r fath neu a ddylid eu hychwanegu yn ddiweddarach gan ddefnyddio'r pŵer i wneud hynny drwy is-ddeddfwriaeth.¹²³

Safbwynt y Pwyllgor

154. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manteision o gynnal lefel uchel o gysondeb rhwng y rhyddhadau a gynigir ar gyfer LTT a'r rhai a ddarperir ar hyn o bryd gan y weithdrefn SDLT ac mae wedi'i galonogi gan y gefnogaeth a fynegwyd gan randdeiliaid ar gyfer y dull hwn. Mae'n credu y bydd y gallu i gyflwyno rhyddhadau newydd yn bwysig i sicrhau y gall y system addasu i adlewyrchu newidiadau ym marchnad eiddo Cymru a manau eraill er mwyn cynnal cystadleurwydd masnachol ac osgoi datgymell trethdalwyr Cymru.

¹¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 618

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTAA09, Eversheds LLP

¹²¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraffau 567-569

¹²² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 577

¹²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 583

155. O ran y rhyddhadau ychwanegol penodol a gynigiwyd i'r Pwyllgor, Cronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo a Chynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth, mae'r Pwyllgor yn nodi'r cais a wnaed gan rai rhanddeiliaid y dylid darparu ar gyfer y rhain yn neddfwriaeth LTT a'r cysondeb cynyddol â SDLT a ddaw yn sgil hynny.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhyddhadau priodol ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo a Chynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth drwy welliannau yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau na fydd hyn yn datgymhell buddsoddiad masnachol mewn eiddo yng Nghymru yn anfwriadol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith pob rhyddhad yn ofalus, yn benodol rhyddhad anheddau lluosog, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau i ddiwygio'r ddarpariaeth o ryddhadau os bydd angen i fynd i'r afael ag unrhyw gymhellion croes.

Rheol wedi'i Thargeddu yn erbyn Osgoi Trethi

156. Mae'r Bil yn cynnwys Rheol wedi'i Thargeddu yn erbyn Osgoi Trethi (TAAR). Mae'r ME yn nodi mai diben TAAR yw atal hawlio rhyddhadau:

“os y prif ddiben, neu un o'r prif ddibenion, wrth i unrhyw berson fod yn rhan o'r trefniant hwnnw yw cael mantais dreth i unrhyw berson, ac nid oes sylwedd economaidd neu fasnachol dilys i'r trafodiad.”¹²⁴

157. Yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor dyddiedig 2 Tachwedd, eglurodd mai bwriad y TAAR a ddarparwyd gan adran 31 “yw atal cynlluniau osgoi sy'n cynnwys hawlio un rhyddhad neu ragor”.¹²⁵ Mae cynnwys un TAAR cyffredinol yn wahanol i'r dull a gymerwyd yn neddfwriaeth SDLT sy'n cynnwys nifer o TAARs sydd ynghlwm wrth ryddhadau penodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Bydd hyn yn arf cadarn a defnyddiol i sicrhau na cham-fanteisir ar ryddhadau er mwyn osgoi talu LTT, ond y bydd yn dal i ganiatáu i drethdalwyr weithredu rheolau cyfarwydd SDLT, gan sicrhau cysondeb yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad.”¹²⁶

158. Yn ei lythyr dyddiedig 2 Tachwedd, nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn diystyru'r posibilrwydd o gyflwyno TAARs pellach yn y dyfodol “os bydd yn gweld bod cynlluniau osgoi trethi ar waith y mae angen rhoi terfyn arnynt”.¹²⁷

159. Nododd tystion amryw o bryderon yn ymwneud â'r term “dilys” sydd wedi'i gynnwys yn y TAAR a'r Rheol Gyffredinol yn erbyn Osgoi Trethi (GAAR), a ddarperir ar ei gyfer yn Rhan 7 o'r Bil. Nid oedd yr ICAEW yn argyhoeddedig fod y geiriad yn arbennig o ddefnyddiol. Nododd:

“the use of the word ‘genuine’ is unusual although we appreciate it has also been used in the drafting of the anti-avoidance rule. We would have thought the test would be better framed as arrangements that lacked economic substance

¹²⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.39

¹²⁵ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2016](#)

¹²⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.39

¹²⁷ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2016](#)

or where the economic substance was insignificant when compared to the tax advantage received.”¹²⁸

160. Dywedodd Deloitte LLP nad oedd yn glir bod y gair “dilys” yn ychwanegu unrhyw beth at “economaidd neu fasnachol” yn adran 31. Ymhelaethodd Deloitte LLP ar hyn:

“I think it should come out. I don’t see what it adds. Either something is an economic benefit or it isn’t and the problem is when it goes before a court they’re going to say that word must mean something in addition and, therefore, put in an additional condition on getting the relief.”¹²⁹

161. Awgrymodd Deloitte LLP hefyd y byddai’n ddefnyddiol cael enghreifftiau o beth fyddai trefniant annilys er mwyn deall y diben y tu ôl i’r gwaith drafftio.¹³⁰

162. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr bryderon ynghylch ystyr darpariaeth “nad oes sylwedd economaidd na masnachol dilys” yn y diffiniad trefniant osgoi trethi a nodir yn adran 31 o’r Bil. Holodd y canlynol:

“When do arrangements lack genuine economic substance? What does the word ‘lack’ actually mean? Does it mean it has no genuine economic substance?... if you do a deal where your motives are 25 per cent, let’s say, pure and 75 per cent impure, do you say, well, that 25 per cent genuine economic substance is enough to get you out of the lacking criteria? Is it a 50 per cent test? Is it a 2 per cent test? Does it have to completely lack economic substance in order for it to fall foul of the TAAR?”¹³¹

163. Galwodd tystion am ganllawiau ar weithredu TAAR i gael eu darparu i gyd-fynd â’r system newydd. Dywedodd Eversheds LLP y canlynol:

“If enacted in this form, clear guidance will be required on its interpretation and the arrangements which fall within its ambit and which arrangements do not, if uncertainty is to be avoided.”¹³²

164. Er i Gymdeithas y Cyfreithwyr ddweud y byddai canllawiau manwl yn ddefnyddiol, dywedodd hefyd nad oedd ei phrofiad o ganllawiau gwrthweithio osgoi trethi ar gyfer SDLT yn ddefnyddiol gan fod yr enghreifftiau ynddynt ar un ochr neu’r llall ac felly nid oeddent yn awgrymu sut y gellid dehongli’r ddeddfwriaeth mewn achosion ymylol. Roedd yn cynnig cymorth i Awdurdod Cyllid Cymru o ran llunio canllawiau manwl ac wrth hyfforddi swyddogion Awdurdod Cyllid Cymru yn y maes hwn.¹³³

165. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y defnydd o ‘dilys’ yn y diffiniad yn fwiadol, achos hebdo roedd yn credu y byddai’n dal yn bosibl llunio trefniadau a oedd wedi’u cynllunio i osgoi talu trethi os oeddent yn cynnwys elfen fach o ddiben masnachol neu economaidd, a fyddai’n ddigonol i glirio’r prawf hwnnw:

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

¹²⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 632

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA06, Deloitte LLP

¹³¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 377

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA09, Eversheds LLP

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA10, Cymdeithas y Cyfreithwyr

“the term ‘genuine’ is in there to try to make it clear that the economic or commercial purpose must be more than just a marginal device to try to put yourself in a position where tax that the National Assembly would otherwise have expected you to pay could be avoided.”¹³⁴

Datganiad o bwrpas ar gyfer rhyddhad

166. Roedd rhai tystion yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwneud darpariaeth i gynnwys datganiad o bwrpas ar gyfer pob un o'r rhyddhadau a gwmpesir yn y Bil. Dywedodd y CIOT y byddai datganiad o'r fath yn ddefnyddiol er mwyn gwybod pam bod y rhyddhad yno a'r bwriad pan gaiff ei ddeddfu, gan nodi y byddai'n gwneud y canlynol:

“help a great deal and go a long way to taking away the uncertainty of the overarching TAAR, because you can then look and say, ‘Well, okay, charities relief: the purpose of charities relief is this, so I’m clearly within that intent and therefore the TAAR shouldn’t catch me.’”¹³⁵

167. Roedd sefydliadau eraill yn cefnogi'r awgrym hwn hefyd. Dywedodd yr ICAEW:

“I think having clear statements about the purpose, particularly on reliefs, is a good step forward.”¹³⁶

168. Dywedodd Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig:

“Being clear about why the reliefs are there and who they're for will go a long way to resolving disputes before they even get started.”¹³⁷

169. Teimla'r ICAEW hefyd y bydd angen i Awdurdod Cyllid Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y disgwylir i'r TAAR fod yn gymwys mewn perthynas â phob rhyddhad sydd wedi'i roi.¹³⁸

170. Mewn ymateb i gwestiynau Aelodau o ran p'un a ddylid darparu datganiad o bwrpas ar gyfer rhyddhadau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn gam gweithredu a oedd yn ei ddenu. Dywedodd fod llawer o wybodaeth ar gael eisoes yn y ME, datganiad o fwriad y polisi, nodiadau esboniadol ac yn Atodlen berthnasol y Bil y gallai unrhyw un sydd am ddeall bwriad y polisi y tu ôl i'r rhyddhad gyfeirio atynt.¹³⁹

171. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud bod angen llunio gwahaniaeth rhwng gosod rhagor o fanylion o fwriad y polisi a rhoi'r wybodaeth honno ar wyneb y Bil. Dywedodd yn sicr na fyddai o blaid rhoi manylion ar wyneb y Bil, felly os oedd achos am ddatganiad o fwriad y polisi ar wahân, ei ddewis ef fyddai eu cynnwys yn y nodiadau esboniadol.¹⁴⁰

¹³⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 595

¹³⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 92

¹³⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 480

¹³⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 481

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

¹³⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 563

¹⁴⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 564

Rheolau wedi'u Targeddu yn erbyn Osgoi Trethi sy'n cwmpasu trethi nad ydynt wedi'u datganoli

172. Mae'r diffiniad o drethi sydd wedi'i gynnwys yn Adran 31(3) y byddai TAAR yn gymwys iddo yn cynnwys y trethi canlynol nad ydynt wedi'u datganoli: treth incwm, treth gorfforaeth, treth enillion cyfalaf, SDLT, treth wrth gefn y dreth stamp, yn ogystal ag LTT. Roedd rhai tystion yn cwestiynu hyn. Dywedodd ICAEW:

“We are concerned that the list of taxes included within a tax avoidance arrangement includes those which are not devolved, including for example income tax, corporation tax and capital gains tax. Given this measure is aimed at the avoidance of LTT, we do not see that these taxes should be included in a list of taxes that could trigger this provision... We think the non - devolved taxes should be removed from the list but as a minimum we would welcome greater clarity on how such a provision would operate both legally and in practice.”¹⁴¹

173. Roedd y CIOT am gael gwybod pam mae'r TAAR yn gymwys i drethi yn y DU tra bod y GAAR yn cwmpasu trethi datganoledig yng Nghymru:

“In a sense, you'd expect, almost, the GAAR, when you've got a scheme of avoidance that might be taking place in Wales and England—that's when you're looking at a wider arrangement, aren't you, and are concerned about the wider transactions that occur across borders. Whereas, for the reliefs, they are about transactions in Wales—land transactions in Wales. So, to some extent, it seems slightly the wrong way around.”¹⁴²

174. Yn ei lythyr dyddiedig 2 Tachwedd, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y rhesymeg dros gynnwys trethi nad ydynt wedi'u datganoli yn y diffiniad, dywedodd:

“Mae'r rheol yn adran 31 yn sicrhau na fydd rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gael os bydd y trefniant sy'n arwain at y rhyddhad yn ffurfio rhan o drefniant ehangach, ac mai prif ddiben y trefniant hwnnw fyddai osgoi treth annatganoledig, er bod hawlio'r rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir, ac edrych arno ar ei ben ei hun, yn ddilys.

Mae hyn yn golygu nad oes modd hawlio rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir os bydd y trafodiad yn rhan o drefniadau lle mai osgoi treth annatganoledig yw'r prif ddiben.”¹⁴³

Safbwynt y Pwyllgor

175. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y dull o gyflwyno Rheol wedi'i thargeddu yn erbyn osgoi trethi sy'n gymwys i'r rhyddhadau yn y Bil yn gwyro oddi ar y trefniadau presennol o dan system SDLT. Gan ei bod yn angenrheidiol hunanasesu a yw'r TAAR yn gymwys, mae'r Pwyllgor yn deall y bydd trethdalwyr ac ymarferwyr yn bryderus o'r system newydd. Mae'n credu y bydd canllawiau clir ar weithredu'r TAAR yn hanfodol er mwyn i ymarferwyr fod yn siŵr bod y cyngor y maent yn ei roi i'w cleientiaid yn cydymffurfio â'r system newydd.

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

¹⁴² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 98

¹⁴³ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2016](#)

176. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod pryderon wedi'u nodi gan ei Gyngorydd Arbenigol ynghylch gallu Awdurdod Cyllid Cymru i ddefnyddio adnoddau digonol i ddarparu digon o ganllawiau ac ymchwilio i drefniadau cymhleth. Mae rhyddhadau LTT yn perthyn yn fras i ddau grŵp: y rhai y bwriedir iddynt ategu rhyddhadau a ddarparwyd mewn cysylltiad â threthi nad ydynt wedi'u datganoli (e.e. mae rhyddhad grŵp LTT yn ategu'r rhyddhad sydd ar gael ar gyfer treth gofforaeth), a'r rhai y bwriedir iddynt hwyluso trafodiadau penodol (e.e. rhyddhad gwerthu ac adlesu, sy'n hwyluso beth allai fod, mewn gwirionedd, yn drafodiad ariannol) ond a fydd bron yn sicr yn arwain at fanteision treth nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd mantais dreth nad yw wedi'i datganoli, fel y'i diffinnir, bron bob amser yn codi ac yna bydd angen i drethdalwyr a chynghorwyr fod yn glir o ran lle mae'r llinell rannu (rhwng beth sy'n dderbyniol a beth nad yw'n dderbyniol). Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r term "trefniant" a'r ymadrodd "nad oes sylwedd economaidd na masnachol dilys" fod yn glir yn y canllawiau.

177. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r alwad a wnaed gan nifer o sefydliadau y byddai darparu manylion am fwriad pob un o'r rhyddhadau yn y Bil yn helpu o ran asesu a yw hawlio un rhyddhad neu ragor yn torri'r TAAR. Mae'n credu y byddai darparu gwybodaeth o'r fath yn offeryn defnyddiol i ymarferwyr, ac y gellid gwneud hyn drwy adolygu'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

178. Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr achos a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet o ran pam bod y TAAR yn ymwneud â threthi nad ydynt wedi'u datganoli ond yn credu bod angen canllawiau manwl amserol ac arbenigedd angenrheidiol yn Awdurdod Cyllid Cymru.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu canllawiau ar weithredu'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai datganiad o fwriad y polisi ar gyfer pob un o ryddhadau, gan gynnwys y rhyddhadau newydd a argymhellwyd gan y Pwyllgor, gael eu cynnwys yn fawl yn y nodiadau esboniadol i'r Bil.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai canllawiau manwl gael eu darparu i ymdrin â chymhwyso'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi, yn enwedig gan mai'r bwriad yw ei bod yn gymwys i drethi nad ydynt wedi'u datganoli a sicrhau bod ei diben yn parhau yn gul a chyda ffocws fel y nodir yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor dyddiedig 2 Tachwedd 2016.

06. Rhan 6 – Ffurflenni Treth a Thaliadau

Ffurflenni Treth

179. Mae Rhan 6 yn nodi y byddai angen i'r prynwr gyflwyno ffurflen dreth ar gyfer pob trafodiad hysbysadwy i Awdurdod Cyllid Cymru a gwneud unrhyw daliad angenrheidiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“mater i Awdurdod Cyllid Cymru fydd penderfynu ar ffurf a chynnwys y ffurflen. Bydd hyn yn sicrhau bod gan Awdurdod Cyllid Cymru yr hyblygrwydd i ymateb i ddatblygiadau, er enghraifft o ran y seilwaith TG, ac i greu system sy'n addas i'r diben ac yn adlewyrchu newidiadau o ran gofynion defnyddwyr. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn caniatáu i drethdalwyr gyflwyno ffurflenni treth yn electronig, ond yn parhau i gynnig yr opsiwn i drethdalwyr gyflwyno ffurflen bapur. Bydd hyn yn cadw cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig hyblygrwydd i'r defnyddwyr a'r angen i sicrhau bod ffurflenni treth yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac yn effeithlon. Bydd angen i Awdurdod Cyllid Cymru alluogi trethdalwyr i gyflwyno ffurflenni treth a thalu yn y modd mwyaf effeithlon sy'n bosibl. Os yw'r trafodiad yn drethadwy, mae'n rhaid i'r prynwr gynnwys hunanasesiad o'r dreth sydd i'w chodi.”¹⁴⁴

180. Mae Adran 43 o'r Bil yn nodi y byddai angen cyflwyno ffurflen dreth o fewn cyfnod o 30 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl dyddiad y trafodiad. Holodd Aelodau Ysgrifennydd y Cabinet a yw'n bwriadu lleihau faint o amser a ganiateir i gyflwyno ffurflen dreth i 14 diwrnod yn unol â'r cynnig gan Lywodraeth y DU i wneud hynny ar gyfer SDLT. Yn ei ateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“If it does take effect, at the moment, my intention would be to revert to a 30-day filing period for Wales. I'm not convinced of the immediate urgency of moving to 14 days, and I'm particularly not persuaded of the case for putting extra time pressure into the system at the point when it's changing.”¹⁴⁵

Trafodiadau hysbysadwy

181. Mae'r Bil yn nodi y byddai trafodiad tir yn hysbysadwy oni bai bod amgylchiadau yn caniatáu iddo beidio â bod yn hysbysadwy. Mae'r amgylchiadau hyn fel y nodir yn y Bil¹⁴⁶ yn cynnwys:

- trafodiad esempt;
- caffael perchnogaeth tir lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy yn llai na £40,000;
- pan fo'r buddiant a geir wrth brynu yn fuddiant heblaw prif fuddiant mewn tir ac mae'r gydnabyddiaeth drethadwy yn drethadwy ar gyfradd o fwy na 0%; neu
- lle ceir trafodiad nad oes rhaid hysbysu amdano mewn perthynas â lesioedd.¹⁴⁷

¹⁴⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.54

¹⁴⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 67

¹⁴⁶ Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), Adran 45 (Fel y'i cyflwynwyd)

¹⁴⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.56

Safbwynt y Pwyllgor

182. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i gynnal cyfnod ffeilio o 30 diwrnod ar gyfer ffurflenni treth yn ymwneud ag LTT. Mae'n cydnabod y byddai hyn yn gwyro o drefniadau SDLT pe byddai gweithredu amserlen lai ar gyfer ffurflenni treth yn ymwneud â threth yn digwydd cyn cychwyn LTT. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau sy'n digwydd drwy gyflwyno LTT, mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'r amser ychwanegol yn ddefnyddiol wrth i'r trefniadau newydd ymsefydlu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Bil yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru leihau'r amserlen drwy is-ddeddfwriaeth os yw'n ystyried ei bod yn briodol yn y dyfodol. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ddarpariaeth hon, byddai'n annog Llywodraeth Cymru i ofyn am farn grwpiau rhanddeiliaid cyn gweithredu unrhyw newidiadau.

Cofrestru trafodiadau tir

183. Mae Adran 64 o'r Bil yn nodi na all y Prif Gofrestrydd Tir gofrestru na chofnodi trafodiad tir hysbysadwy oni bai y cyflwynir tystysgrif Awdurdod Cyllid Cymru gyda chais i gofrestru neu gofnodi'r trafodiad. Mae'n nodi y byddai tystysgrif Awdurdod Cyllid Cymru yn dystysgrif a roddwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru yn datgan bod ffurflen dreth wedi'i chyflwyno mewn cysylltiad â'r trafodiad hwnnw.

184. Mynegodd y Gofrestrfa Tir fod y defnydd o 'tystysgrif' yn rhy anhyblyg o gymharu â'r trefniadau presennol o dan y system SDLT, sy'n manylu y gall y cofrestrydd dderbyn tystysgrif cydymffurfio neu wybodaeth am gydymffurfio fel y manylir gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau EM mewn rheoliadau.¹⁴⁸ Ymhelaethodd cynrychiolydd o'r Gofrestrfa Tir:

"I was a bit concerned that your legislation, at the moment, just says there has to be a certificate. That sounds as though it could be a little bit inflexible. I accept that secondary legislation might say the certificate could take this form or that form, but maybe, in the future it won't even be a certificate, it might just be some, I don't know, string of letters or something, coming to us electronically. So, I just thought it was worth the drafters of the legislation thinking about whether they should add a few words to make that more flexible."¹⁴⁹

185. Mewn ymateb i'r pryder hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai ffurf y dystysgrif yn cael ei rhagnodi gan Weinidogion Cymru o dan adran 64(5) y Bil. Dywedodd ei fod yn credu y byddai hynny yn:

"entirely conceivable that those regulations could prescribe that a receipt, for example, issued by the WRA confirming receipt of a return could be treated as a certificate. So, while we are clear that a certification system is required, we are not going to be rigid about needing it printed on vellum or any of the old-fashioned ways."¹⁵⁰

Safbwynt y Pwyllgor

186. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a nodwyd gan y Gofrestrfa Tir mewn perthynas â ffurf y dystysgrif sydd i'w darparu fel prawf o trafodiad ac ymateb Ysgrifennydd y Cabinet. Mae ymateb

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA01, y Gofrestrfa Tir

¹⁴⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 244

¹⁵⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 585

Ysgrifennydd y Cabinet yn calonogi'r Pwyllgor, ond byddai'n annog Llywodraeth Cymru i ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u hangheion yn cael eu hystyried.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau ar ffurf y dystysgrif sy'n ofynnol o dan adran 64 o'r Bil, a hynny i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.

07. Rhan 7 – Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi

187. Mae Rhan 7 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael ag osgoi trethi mewn trethi datganoledig drwy gyflwyno Rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (GAAR) ar gyfer trethi datganoledig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r GAAR yn:

“galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i fynd i'r afael ag osgoi trethi mewn perthynas â'r holl ddeddfwriaeth ar drethi datganoledig, ac yn helpu i rwystro ac annog yn erbyn osgoi trethi.”¹⁵¹

188. Mae'r ME yn egluro y byddai'r GAAR yn gymwys pan fydd person yn cymryd rhan mewn “trefniant artiffisial i osgoi treth,” ac yn nodi y byddai trefniant yn “drefniant artiffisial i osgoi treth” os nad yw cymryd rhan yn y trefniant neu gynnal y trefniant yn “ffordd resymol o weithredu”, o ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys i'r trefniadau ac, yn benodol, o ystyried a oes sylwedd economaidd neu fasnachol dilys i'r trefniant, neu a yw'r trefniant yn arwain at godi swm o dreth sy'n wahanol i'r canlyniad a fyddai'n ddisgwyliedig yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol.¹⁵²

189. Mae'r ME yn egluro gan y byddai'r GAAR yn gymwys i unrhyw drethi datganoledig posibl yn ogystal ag LTT a Threth Gwarediadau Tirlenwi, fod y Bil yn ei gyflwyno fel gwelliant i Ddeddf TCM (Cymru) 2016.¹⁵³

190. Mae'r ME yn egluro hefyd fod Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu **Rheol Gyffredinol yn erbyn camddefnyddio'r gyfundrefn dreth** (GAAR) ar gyfer SDLT a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2013, a bod rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yr Alban wedi dod i rym yn 2015, a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae'n nodi:

“Ceir nifer o wahaniaethau rhwng cwmpas y rheolau. Ystyri'r bod cwmpas GAAR yr Alban yn ehangach gan ei bod yn berthnasol i drefniadau sy'n arwain at fanteision treth yr ystyri'r eu bod yn “artiffisial”, tra bo GAAR y DU yn berthnasol i sefyllfaoedd lle ystyri'r bod y trefniadau'n “gamddefnyddiol”. Gwahaniaeth allweddol arall yw nad yw GAAR y DU yn gymwys i Dreth Dirlenwi y DU, ond mae GAAR yr Alban yn gymwys i Dreth Dirlenwi yr Alban.”¹⁵⁴

191. Mae'r ME yn egluro ymhellach fod dull y DU yn gofyn am sefydlu panel cynghori sy'n gorfod cymeradwyo canllawiau Cyllid a Thollau EM ar osgoi trethi a rhoi barn ar achosion cyn y gall Cyllid a Thollau EM weithredu'r ddeddfwriaeth er mwyn adennill unrhyw dreth sydd wedi'i hosgoi. Mae'n nodi gan mai nifer cymharol fach o drethi sydd i gael eu datganoli i Gymru ar hyn o bryd, ac o ystyried cymhlethdod a chost sefydlu panel, “nid yw hyn yn cael ei ystyried yn angenrheidiol nac yn briodol.” Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae effaith peidio â dilyn y drefn o gael Panel Cynghori yn debygol o fod yn gadarnhaol, ac yn debygol o leihau cymhlethdod a'r baich gweinyddol. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn dal i geisio cyngor arbenigol mewn modd tryloyw a

¹⁵¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.65

¹⁵² Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.65

¹⁵³ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.66

¹⁵⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.64

rhagweithiol ar gymhwyso GAAR, ond nid yw deddfwriaeth yn angenrheidiol ar gyfer hyn.”¹⁵⁵

192. Pwysleisiodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl pa mor bwysig yw cael canllawiau ar ddehongli GAAR:

“You’ve got to have the right guidance along with it because, obviously, you’re changing it from England. So, there’s going to be new interpretation. I think that needs to be fleshed out considerably in the guidance.”¹⁵⁶

193. Dyma safbwynt Deloitte LLP hefyd. Dywedodd:

“the WRA will have to issue guidance as to what is, effectively, acceptable tax planning, and it’s really the detail that will support that to make sure that people don’t worry about this overly when they’re doing Welsh land transactions.”¹⁵⁷

194. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn awyddus i weld enghreifftiau ymarferol wedi’u cynnwys mewn unrhyw ganllawiau, a phwysleisiodd y byddai angen enghreifftiau cadarn i sicrhau eglurder i drosgludiaethwyr a threthdalwyr. Dywedodd ei chynrychiolwyr:

“I think the guidance needs to deal with examples. Certainly, when you’re looking at the GAAR, in England you have GAAR guidance that deals with hard examples... In areas like avoidance you would be concerned to draw a bright line; you won’t really want to, you’d like it to be slightly blurry, but what taxpayers want is certainty. They need to know on which side of that blurry line they fall. And what a ruling or guidance does is clarify where that line lies.”¹⁵⁸

195. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y diffyg eglurder o’r term ‘artiffisial’ a ddefnyddiwyd yn y Bil. Teimla nifer o’r tystion y byddai angen canllawiau clir i ddiffinio ystyr artiffisial yng nghyd-destun trethi datganoledig. Dywedodd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad:

“There are difficulties about what we mean by ‘artificial’. I don’t think that’s defined adequately and that is different from the UK regime. I’m not saying we shouldn’t target avoidance, but, actually, we’ve got to be very, very clear what we mean by that and what we mean by ‘artificial’ and I don’t think we’ve quite got there yet.”¹⁵⁹

196. Cytunodd cynrychiolydd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“To me, it is the level of complexity that will have to be solved by conveyancing solicitors who will look at transactions that might fall one side of the line or another to decide whether or not they are artificial. To do that they will have to

¹⁵⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.55

¹⁵⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 316

¹⁵⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 650

¹⁵⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 352 a 353

¹⁵⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 126

see why the Welsh Assembly enacted the legislation and what their intention was, and, again, that can be quite difficult.”¹⁶⁰

197. Dywedodd cynrychiolydd o Eversheds LLP wrth y Pwyllgor y byddai dehongli mantais drethiannol a thrafodiad artiffisial yn hawdd pe byddai'r canlynol yn wir:

“there’s clear guidance as to what that means and what you see as being artificial and what you see as not.”¹⁶¹

198. Cynigiodd y CIOT y gellid dehongli ‘artiffisial’ a ‘camddefnyddiol’ mewn ffordd debyg. Dywedodd y byddai defnyddio ‘artiffisial’ yn effeithiol o ran tynhau achosion osgoi trethi, ond y gallai arwain at beidio â gwneud rhai trafodiadau os yw'r darpar brynwr yn ansicr ynghylch a fyddai'n cydymffurfio â'r GAAR. Dywedodd y CIOT wrth y Pwyllgor:

“I think ‘artificial’ and ‘abuse’ are probably very, very similar, in my view, in outlook as to they would be applied. If something is done artificially, you’re probably trying to abuse the tax system.”¹⁶²

“It [the GAAR] would scare a lot of tax practitioners about, ‘Right; I’m not going anywhere near that because I don’t want to be caught by something that’s anti-avoidance’.

There is a distinct possibility that you will do, yes—avoid the commercial transaction.”¹⁶³

199. Yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor ar 2 Tachwedd eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi dewis diffinio ei brawf yn ‘artiffisial’ am ei fod yn meddwl ei fod yn:

”disgrifio’n fwy manwl beth yw craidd y prawf a’r bwriad bod y GAAR yn cynnwys y trefniadau hynny sydd wedi’u dyfeisio mewn ffordd artiffisial neu annormal er mwyn sicrhau mantais drethiannol. Er bod craidd y profion yn debyg, mae defnyddio camddefnyddiol (“abusive”) yn GAAR y Deyrnas Unedig yn awgrymu y bwriedir iddo gynnwys ystod gulach o drefniadau sy’n eithriadol o astrus neu’n astrus iawn.”¹⁶⁴

200. Un maes oedd yn peri pryder i’r ICAEW oedd mewn perthynas â chynnwys ‘dilys’ yn y GAAR, a oedd yn teimlo ei fod yn gostwng y trothwy ar gyfer trethdalwyr sy’n cael eu dal gan y Rheol a mwy o ansicrwydd. Dywedodd:

“The Welsh version of this test appears to set quite a low threshold, namely was it genuine, rather than look to the actual substance of the arrangement. The test is likely to create further uncertainty and argument in what is already a difficult area for advisers and taxpayers.”¹⁶⁵

¹⁶⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 417

¹⁶¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 660

¹⁶² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 122

¹⁶³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraffau 124 a126

¹⁶⁴ [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2016](#)

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

201. Cyfeiriodd Deloitte LLP at y panel cynghori a sefydlwyd fel rhan o drefniadau GAAR y DU a gwerth ei rôl o ran llunio canllawiau. Dywedodd ei gynrychiolydd:

“in the UK GAAR, the guidance, the GAAR panel, that’s actually part of the statutory framework for the GAAR. I think that’s quite important.”¹⁶⁶

202. Awgrymodd y CIOT y byddai sefydlu panel cynghori yn fuddiol drwy gynghori ar arfer cyffredinol. Dywedodd:

“In terms of prevailing practice and the guidance being active and agile and adopting, really being true to what is prevailing practice, maybe safeguards such as an advisory panel who can advise the Welsh Revenue Authority on prevailing practice would provide some certainty.”¹⁶⁷

203. Awgrymodd rhai tystion, ochr yn ochr â chanllawiau, y byddai cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer dulliau clirio yn fuddiol o ran darparu eglurder i unigolyn neu eu cynghorwyr o ran asesu a yw trafodiad posibl yn cydymffurfio â'r GAAR. Mynegodd y CIOT bryder o ran cynnwys y meini prawf ‘un o’r prif ddibenion’ i ddiffinio trefniant osgoi treth, y mae’n credu sy’n drothwy isel iawn i benderfynu a oes gan drafodiad elfen o osgoi. Yn ôl ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Although the GAAR has been designed as a ‘broad spectrum’ deterrent, the breadth of the provision means some form of clearance system or opinion service would be necessary to provide certainty.”¹⁶⁸

204. Gwnaeth y ICAEW gwestiynu hefyd a yw’r darpariaethau GAAR yn rhoi digon o sicrwydd i drethdalwyr:

“We can appreciate why the Welsh Government would not want to adopt a clearance mechanism, but, nevertheless the broad sweep on the anti-avoidance provision makes it difficult for taxpayers to obtain certainty and we question whether some way might be found to provide greater certainty.”¹⁶⁹

205. Cyfeiriodd yr ICAEW at system glirio yn ystod y dystiolaeth lafar ac awgrymodd y gallai’r defnyddwyr dalu am y gwasanaeth:

“Our approach was always, in relation to the GAAR, that we would prefer a clearance mechanism. Obviously, that has not been taken forward at the UK level. I think it is a moot point as to whether that would be, in principle, something that Wales could adopt. One could, for instance, charge for it in some way. So, there are ways that, perhaps, one could actually cover, if you like, the cost of running it. But I think that taxpayers, particularly on larger commercial transactions, might be willing to pay something to get a reasonable level of certainty.”¹⁷⁰

206. Cytunodd Deloitte LLP y byddai system glirio yn ddefnyddiol:

¹⁶⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 652

¹⁶⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 129

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA05, y Sefydliad Siartredig Trethiant

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, LTTA08, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

¹⁷⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 510

“But it would also be helpful to have an opinion process or clearance for those issues, wherever they are grey, to get some certainty in advance of a transaction.”¹⁷¹

207. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto o ran a fyddai system glirio neu banel barn, ac mai Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn penderfynu p'un a ddarperir gwasanaeth o'r fath.¹⁷²

Safbwynt y Pwyllgor

208. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys mesurau yn y Bil i dynhau rheolau ynghylch atal osgoi trethi datganoledig, ac mae'n credu bod y dull a gymerwyd i ddefnyddio'r Bil hwn er mwyn gosod darpariaethau yn Neddf TCM (Cymru) 2016 yn briodol.

209. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a nodwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch yr ansicrwydd a allai godi yn sgil mabwysiadu dull ychydig yn wahanol i'r GAAR presennol drwy ddisgrifio trefniant yn 'artiffisial' yn hytrach na 'camddefnyddiol'. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rhesymeg Ysgrifennydd y Cabinet dros fabwysiadu'r dull hwn. Serch hynny, mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i baratoi canllawiau i sicrhau y gall y cyhoedd a'u cynghorwyr fod yn hyderus o ran a fyddai trafodiadau posibl yn cydymffurfio â'r GAAR.

210. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dewis peidio â chynnwys darpariaeth i sefydlu panel cynghorol mewn perthynas â'r GAAR. Er ei fod yn derbyn nad oes angen i fanylion sefydlu grŵp o'r fath gael eu cynnwys ar wyneb y Bil, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylai Ysgrifennydd y Cabinet bwysleisio i Awdurdod Cyllid Cymru y buddion o greu panel i gynghori ar y gwaith o weithredu'r GAAR. Dylai Awdurdod Cyllid Cymru weithio gyda grwpiau rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sefydlu grŵp i gynghori ar y gwaith o baratoi canllawiau GAAR. Gallai grŵp o'r fath ystyried yr angen am system glirio fel yr oedd rhai tystion yn galw amdano.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai paratoi canllawiau ar weithredu'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi fod yn flaenoriaeth ar unwaith i Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n argymhell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru weithio gyda rhanddeiliaid ar lunio canllawiau, gan sefydlu panel cynghorol ar y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi o bosibl.

Cynlluniau Datgelu Osgoi Treth

211. Mae Cynlluniau Datgelu Osgoi Treth (DOTAS) yn ddull ar gyfer mynd i'r afael ag osgoi trethi lle mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â dylunio, gweithredu neu farchnata cynlluniau cynllunio treth gyflwyno manylion o'r trefniadau i'r awdurdod refeniw yn gynnar iawn a rhaid i ddefnyddwyr roi gwybod i'r awdurdod refeniw am rif cyfeirio unrhyw gynllun maent wedi'i ddefnyddio. Mae'r cynlluniau hyn yn caniatáu i awdurdod treth nodi cynlluniau osgoi treth ac unrhyw fylchau posibl yn y system dreth. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn gweithredu'r DOTAS i SDLT ond nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y DOTAS neu fesur tebyg i'w ddefnyddio gydag LTT.

212. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar p'un a ddylai darpariaethau ar gyfer DOTAS gael eu cynnwys yn y Bil, ond nad yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn bendant y naill ffordd neu'r llall. Dywedodd:

¹⁷¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 564

¹⁷² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 621

“I think it is fair to say that there were very mixed views—almost 50/50—those respondents who said that we ought to take a DOTAS power in Wales and those who argued that it was disproportionate to the nature of the taxes that we will inherit at this point.

Scotland rehearsed the same arguments and decided not to proceed with a DOTAS regime. But, it’s an issue on which if, the committee heard evidence and felt that there was a different outcome, then I would be very happy to look very closely at the arguments, because it is very closely balanced and I’m sure it’s an argument worth revisiting and seeing whether the committee believes that we’ve come down on the right side of that argument.”¹⁷³

213. Soniodd rhai tystion a ddylai Llywodraeth Cymru weithredu DOTAS ar gyfer trethi datganoledig. Roedd y CLA yn teimlo nad oedd angen system ar wahân gan fod modd rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a Cyllid a Thollau EM. Dywedodd cynrychiolwyr o’r CLA:

“I really don’t think, at the moment, it merits Wales having a separate regime. I think you can still share information about what’s happening between the Welsh Revenue Authority and HM Revenue and Customs, and that’s probably going to be the most cost-effective way forward.”¹⁷⁴

214. Dywedodd yr ICAEW hefyd:

“I think, at the moment we’ve gone for the GAAR approach, and I think we would probably prefer, ‘Let’s see how we get on’, and see whether it can work and whether any incidence of tax avoidance is manageable and is at a low level, without the need for a DOTAS regime.”¹⁷⁵

215. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Cyllid a Thollau EM yn sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth ffurfiol gydag Awdurdod Cyllid Cymru yn ymwneud â DOTAS:

“HMRC are currently establishing the necessary legal gateways and processes for information sharing to enable HMRC to share with the WRA all relevant compliance information, including DOTAS disclosures relevant to LTT... So, I think we feel that, with that in place, a considerable slice of the relevant information will be available to the WRA, which, on the whole, I think, tends to sort of push the argument back over the line of not needing a separate system of that sort for Wales.”¹⁷⁶

Safbwynt y Pwyllgor

216. Mae’r Pwyllgor yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet yr ystyriwyd cynnwys darpariaethau ar gyfer DOTAS yn y Bil, ond bod y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn gymysg. Mae’n cydnabod na wnaeth rhanddeiliaid fynegi angen am ddarpariaethau DOTAS yn y Bil, felly, ar y cyfan, mae’n credu bod y dull a fabwysiadwyd yn y Bil yn briodol. Fodd bynnag, mae’n credu bod angen cyfnewid gwybodaeth gyda Cyllid a Thollau EM.

¹⁷³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraffau 164 a 165

¹⁷⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 169

¹⁷⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 515

¹⁷⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 615

08. Goblygiadau Ariannol

217. Mae'r goblygiadau ariannol ar gyfer cyflwyno a gweithredu LTT fel treth newydd yn lle'r SDLT wedi'u nodi ym mhennod 8 y Memorandwm Esboniadol. Mae'r ME yn nodi na fyddwn yn gwybod beth fydd effaith lawn yr LTT tan y cyhoeddir y cyfraddau a'r bandiau yn agosach at y dyddiad gweithredu, mae'r amcangyfrifon cost a ddarparwyd yn canolbwyntio ar y baich gweithdrefnol a gweinyddol ar Awdurdod Cyllid Cymru ac ymarferwyr.¹⁷⁷

Costau Awdurdod Cyllid Cymru

218. Mae'r ME yn nodi y byddai costau gweithredol a gweinyddol uniongyrchol ynghlwm er mwyn i Awdurdod Cyllid Cymru gasglu a rheoli LTT yn effeithiol. Mae'n nodi y byddai'r rhain yn cynnwys ystyried darpariaeth gwasanaeth ar-lein, ymdrech cydymffurfio a gorfodi, lefel o wasanaethau cwsmeriaid a'r angen i feithrin gallu o ran y Gymraeg. Mae'n nodi ymhellach gan y byddai'r costau hyn yn gysylltiedig â gweithredu trethi datganoledig yn fwy eang yng Nghymru, ni fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i wahanu costau LTT.¹⁷⁸

219. Mae'r ME yn amlinellu'r costau a amcangyfrifir ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru fel a ganlyn:

“Amcangyfrifir y bydd y costau sefydlu rhwng £4.8 miliwn a £6.3 miliwn dros y cyfnod 2016/17 i 2018/19. Mae'r costau hyn yn cynnwys cynhyrchu a chyhoeddi canllawiau gwirfoddol ar gyfer ymarferwyr yn 2017/18. Amcangyfrifir y bydd y costau gweithredu rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2018/19.”¹⁷⁹

220. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn rhagweld y bydd y gost yn aros o fewn y cwmpas a nodwyd yn y memorandwm esboniadol.¹⁸⁰

221. Clywodd y Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Strategaeth Ariannol Llywodraeth yr Alban fod y costau sefydlu ar gyfer Refeniw yr Alban yn uwch na'r amcangyfrifon gwreiddion oherwydd cafodd staff eu recriwtio yn gynharach na'r hyn a ragwelwyd er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer hyfforddiant ac am na chafodd y gost o system gyfrifiaduron bwrpasol ei chynnwys.¹⁸¹

222. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa yn yr Alban a bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o'r profiad hwnnw:

“We are able to learn a bit from their experience to try and avoid some of the reasons why their transitional costs were higher than they had anticipated and take some comfort from the fact that, in their actual day-to-day operation, their ability to design for digital from the very beginning has meant that some of the costs they anticipated have been lower than were originally thought.”¹⁸²

223. Mae'r ME hefyd yn datgan y byddai gweithredu LTT yn effeithio ar gyrrff cyhoeddus, yn arbennig y Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan fod y ddwy asiantaeth yn rhannu data ar SDLT gyda

¹⁷⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.23

¹⁷⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.25

¹⁷⁹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.26

¹⁸⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 50

¹⁸¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 30

¹⁸² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Tachwedd 2016, paragraff 637

Cyllid a Thollau EM. Mae'n dweud y byddai angen cytuno ar femoranda cyd-ddealltwriaeth newydd gyda'r asiantaethau er mwyn pennu rolau, cyfrifoldebau a threfniadau gweithio, ond na fyddai'r gwaith dan sylw ar gyfer y naill asiantaeth yn newid.¹⁸³

224. Mewn ymateb i gwestiynau ar gost debygol trefniadau rhannu data rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r Gofrestrfa Tir, dywedodd cynrychiolydd o'r Gofrestrfa Tir:

"I don't think we can give an actual figure. We will certainly want to engage in discussions into setting up data-sharing arrangements and establish exactly what it is that the Welsh Revenue Authority needs. We generally charge on a cost-recoverable basis, but it really depends on what it is you want. If it's ongoing supply of data, then there may be additional costs in terms of setting up that system—secure networks et cetera."¹⁸⁴

225. Yn ei adroddiad, Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:

"Er bod Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod cost yr adnoddau i sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru yn parhau i fod yn unol â'u hamcangyfrifon cyhoeddedig cychwynol, her allweddol fydd sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael ar yr adeg gywir."¹⁸⁵

Costau Llywodraeth Cymru

226. Mae'r ME yn cynnwys tâl amcangyfrifedig o £1 miliwn i Lywodraeth Cymru gan Cyllid a Thollau EM am ddiffodd y systemau a ddefnyddir i gasglu SDLT yng Nghymru. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet hyn wrth y Pwyllgor:

"The £1 million switch-off cost—we put that into the explanatory memorandum just to be the clear for the committee and others that, when stamp duty land tax stopped in Scotland, HMRC charged them £1 million for shutting down the systems that they would otherwise have used. They then pay you an annual amount of money back for the work that they're now not doing. So, we are in negotiations and discussions with HMRC over what that sum of money might be for Wales."¹⁸⁶

Costau trosglwyddo sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth

227. Mae'r ME hefyd yn cynnwys costau amcangyfrifedig i'r ymarferwyr hynny a fyddai'n cefnogi a chynghori eu cleientiaid gan y byddai angen iddynt ddod yn gyfarwydd ag LTT a sut y mae'n wahanol i SDLT. Mae'r ME yn amcangyfrif y gallai fod rhwng 2,000 a 4,000 o bobl yng Nghymru y bydd y newid o SDLT i LTT yn effeithio ar eu gwaith ac mae hynny'n golygu mai'r gost fesul awr i'r galwedigaethau hynny yw £24.82. Mae'n nodi, gan dybio y byddai'n cymryd hyd at un diwrnod gwaith (8 awr) i ddysgu am LTT, byddai hynny'n arwain at amcangyfrif o gost untro o rhwng £400,000 a £800,000 yn 2018/19.¹⁸⁷

¹⁸³ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.30

¹⁸⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2016, paragraff 211

¹⁸⁵ [Swyddfa Archwilio Cymru, Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru, Rhagfyr 2016](#)

¹⁸⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2016, paragraff 50

¹⁸⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.35-8.39

228. Roedd tystion yn teimlo bod y costau a gynhwysir yn y ME ar gyfer dysgu am LTT ymysg proffesiynau wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel. Dywedodd cynrychiolydd o'r CIOT wrth y Pwyllgor y gallai'r amcangyfrifon fod ar yr ochr isel. Dywedodd:

“For example, if I gave a talk to my property colleagues within Geldards and talked to them for an hour, the cost to the firm for my time is, kind of, de minimis, but the loss of fees of, say, 20 fee owners is substantial. It could be, say, £3,000, and if you multiply that by 1,000 law firms, you get a long way towards the proportion—to the £800,000 top estimate of the costs of implementation.”¹⁸⁸

Safbwynt y Pwyllgor

229. Mae'r Pwyllgor yn nodi amcangyfrif y costau sefydlu a ddarparwyd ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ac yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y costau a ragwelir yn ystod taith y Bil. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwersi pwysig i'w dysgu o'r profiad o weithredu LBTT yn yr Alban, ac y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gadw mewn cysylltiad â'u cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban a Cyllid yr Alban i sicrhau y gellir defnyddio eu profiad er budd Cymru.

230. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau amcangyfrifedig ar gyfer gweithredu LTT a nodir yn y ME a'r sylwadau a wnaed gan randdeiliaid y gallai'r rhain fod wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel. Mae'n cydnabod yr anhawster o ran darparu asesiad cywir ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'n nodi bod yr ystod rhwng yr amcangyfrif is ac uwch o ran y costau i ymarferwyr yn eang iawn. Byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol i lunio amcangyfrif mwy cywir o'r costau yr eir iddynt. Dylai hyn roi mwy o sicrwydd i'r diwydiannau hynny o ran y baich ariannol tebygol y byddant yn eu hwynebu.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu'r costau amcangyfrifedig diweddaraf cyn trafodion Cyfnod 2, gan gyfeirio'n benodol at gostau TG a chostau sefydlu.

¹⁸⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2016, paragraff 159

Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgriadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor

.Dyddiad	Enw a Sefydliad
21 Medi 2016	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru
29 Medi 2016	Alistair Brown, Llywodraeth yr Alban Louise Speke, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwald Joy Bailey, y Gofrestrfa Tir Pascal Lalande, y Gofrestrfa Tir
13 Hydref 2016	Mark Hayward, Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai Douglas Haig, Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl David Morgan, Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Geraint Evans, Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr Martin Warren, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr Adam Thomas, Geldards LLP David Jarvis, Eversheds LLP Jonathan Evans, Deloitte LLP Sarah Delaney, Deloitte LLP Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr Nigel Popplewell, Cymdeithas y Cyfreithwyr Angharad Woodland, Cymdeithas y Cyfreithwyr Kate Willis, Sefydliad Siartredig Trethiant Andrew Evans, Sefydliad Siartredig Trethiant
3 Tachwedd 2016	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru

Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad	Cyfeirnod
Y Gofrestrfa Tir	<u>LTТА 01</u>
Geldards LLP	<u>LTТА 02</u>
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwald Cymru	<u>LTТА 03</u>
Cyngor Benthycwyr Morgeisi	<u>LTТА 04</u>
Sefydliad Siatredig Trethiant	<u>LTТА 05</u>
Deloitte LLP	<u>LTТА 06</u>
Cymdeithas Landlordiaid Preswyl	<u>LTТА 07</u>
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr	<u>LTТА 08</u>
Eversheds LLP	<u>LTТА 09</u>
Cymdeithas y Cyfreithwyr	<u>LTТА 10</u>
Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai	<u>LTТА 11</u>
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig	<u>LTТА 12</u>
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	<u>LTТА 13</u>